



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Cynllun Busnes 2017/18

## Cynnwys

Ein Gweledigaeth.....	3
Ein Diben .....	3
Cyflwyniad .....	3
Y Cyfleoedd sydd o'n Blaenau .....	5
Sut y Byddwn yn Gweithio .....	7
Ein Rhaglen Weithredu .....	8
Ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18 .....	9
Ein Gweithgareddau .....	10
Cydgysylltu'r Gwaith Hwn .....	11
Golwg Ariannol .....	14
Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – O ble y daw ein cyllid .....	15
Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – Ar beth ydym ni'n ei wario? .....	16
Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – Buddsoddiad Parhaus .....	17
Rheoli Risgiau.....	17
Ein Pobl .....	18
Ein Rhaglenni Trawsnewid .....	20
Yr Hyn y Byddwn yn ei Gyflenwi yn 2017/18 .....	22
Adrodd ar ba mor dda rydym yn perfformio.....	27
ATODIAD 1 – Dangosfwrdd Adrodd 2017/18.....	28
ATODIAD 2 – Yr Hyn y Byddwn yn ei Gyflenwi yn 2017/18 yn ôl Gweithgareddau.....	28

## Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy.

## Ein Diben

Trwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni

- fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a
- dilyn y saith egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ... wrth i ni arfer ein swyddogaethau.

## Cyflwyniad

Mae gan Gymru adnoddau naturiol eithriadol: mynyddoedd, coedwigoedd, tirweddau, arfordir, afonydd, môr a llynnoedd. Maent yn darparu ar gyfer ein hanghenon sylfaenol o ran yr aer yr ydym yn ei anadlu, y dŵr yr ydym yn ei yfed, a'r bwyd yr ydym yn ei fwyta. Maent hefyd yn rhoi ynni, ffyniant a sicrwydd i ni, ac yn helpu i'n hamddiffyn, i'n gwneud yn hapusach, ac i wneud ein bywydau'n well. Pan fydd ein hamgylchedd yn gweithio hyd eithaf ei allu, mae cymdeithas gyfan yn ffynnu.

Fodd bynnag, gwyddom fod yr amgylchedd yn dirywio mewn llawer o ardaloedd ac nad yw ein hadnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy.

Mae bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, ac er ein bod wedi cymryd camau i wella lefelau llygredd aer a dŵr, gwastraff ac allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n digwydd yn awr, maent yn dal yn fygythiad i'n hamgylchedd naturiol a'n hadnoddau naturiol i'r dyfodol. Bydd hyn yn cael effaith ar ein hiechyd a'n llesiant, yn ogystal ag ar ein dyfodol economaidd.

Mae angen i rywbeth newid er mwyn i ni reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn wirioneddol. Bydd defnyddio tystiolaeth a'u rheoli mewn ffordd gydgyssylltiedig yn ein helpu i ddatgloi eu potensial.

Yng Nghymru, mae gennym gyfle gwych yn awr i weithio mewn ffordd wahanol a mynd i'r afael â'r heriau hyn a chanolbwyntio ar lesiant y genedl gyfan. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2016 yn nodi rhai o'r heriau hyn a'r cyfleoedd sydd gennym ar hyn o bryd.

Mae dau ddarn newydd o ddeddfwriaeth, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol yn 2015 a 2016, sy'n ein helpu i fanteisio ar y cyfleoedd hyn:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi dyletswydd llesiant arnom ni a chyrrff cyhoeddus eraill i gyflawni datblygiad cynaliadwy; a
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n rhoi pwrpas diwygiedig i ni mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym wedi mabwysiadu ffordd newydd o weithio eleni, gan sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd gwirioneddol gynaliadwy a gweithredu ar egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf Llesiant. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru mewn sefyllfa unigryw wrth galon y cyfleoedd

hyn; mae ein pwrpas newydd yn ymgorffori hyn. Bydd angen ymdrech gydweithredol dros nifer o flynyddoedd i gyflawni'r newidiadau mewn ymddygiad tuag at adnoddau naturiol. Ein nod yw gyrru hyn, gan sbarduno eraill er mwyn i ni wneud gwahaniaeth go iawn gyda'n gilydd i reolaeth adnoddau naturiol ac yn y pen draw i'n llesiant. Mae'r Cynllun Busnes hwn yn amlinellu'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod y 12 mis nesaf ac mae'n gam cyntaf tuag at ddatblygu ffordd newydd o weithio, sef cynllunio ac anelu at nodau cyffredin mewn ffordd gydweithredol.

Mae rhai materion penodol sylweddol y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw yn ystod 2017–18:


- Ymgorffori syniadaeth rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ym mhopeth a wnawn, gan gefnogi'r ffordd rydym yn gweithio ac yn ymgysylltu ag eraill i fynd i'r afael â heriau a manteisio ar gyfleoedd.
- Datblygu Datganiadau Ardal er mwyn iddynt fod yn sail ar gyfer gwelliannau yn ein hamgylchedd.
- Sicrhau bod agwedd Cymru tuag at fioamrywiaeth a chadwraeth yn cyd-fynd â'r ffordd rydym yn cydweithio wrth reoli tir a dŵr trwy ddatblygu dull strategol. Bydd hyn yn cefnogi y Cynllun Adfer Natur presennol.
- Dwyn cyfleoedd busnes cynaliadwy i ffrwyth, fel y fferm wynt fwyaf ar y tir ym Mhen y Cymoedd.
- Cynghori ar brosiectau cenedlaethol pwysig fel Lagŵn Llanwol Bae Abertawe, Wylfa Newydd a ffordd liniaru'r M4.
- Gwella sut rydym yn cyflenwi gwasanaethau trwy newid ffurf ein sefydliad.

Rydym yn rhoi pwyslais ar ein pwrpas newydd o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein hymdrech lle rydym yn gwneud y cyfraniad mwyaf, yn cynnal a chreu cydberthnasau newydd â phartneriaid a chymunedau, ac yn rhoi sylw i'r materion sylfaenol a fydd yn cynyddu gwydnwch ein systemau naturiol. Mae rhaglen Datblygu Sefydliadol yn cefnogi hyn ac yn gwneud y gorau posibl o'n strwythurau yn dilyn "Achos dros Newid" y llynedd.

Mae'r cynllun hwn yn un o nifer o gyhoeddiadau sy'n rhoi pwyslais ar ein pwrpas newydd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae angen gweld hwn ochr yn ochr â'r:

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2016. Mae hwn yn darparu sail tystiolaeth ar gyfer adrodd ar y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn ein helpu ni i ddeall y cyfraniad mae ein hadnoddau naturiol yn ei wneud i les Cymru.
- Datganiad Llesiant, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â'r Cynllun Busnes hwn, sy'n amlinellu ein Hamcanion Llesiant ar gyfer cyfrannu at wella llesiant yng Nghymru.
- Mae Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, ac Amcanion Llesiant, ynghyd â'n Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, yn cynnwys y polisiau cyffredinol a phenodol a fydd yn gyrru ein gwaith.
- Cynllun Corfforaethol 2017–22, a gaiff ei gyhoeddi yn haf 2017.
- Datganiadau Ardal, a gânt eu cyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2019.
- Adrodd am berfformiad. Byddwn yn adrodd yn gyhoeddus am ein perfformiad mewn perthynas â'r targedau a osodir gennym bob blwyddyn yn ein Cynlluniau Busnes. Byddwn hefyd yn monitro dangosyddion sy'n cyd-fynd â'n Hamcanion Llesiant.

## Canolbwyntio ar ein diben newydd



## Y Cyfleoedd sydd o'n Blaenau

Amlinellodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol y dystiolaeth a gwnaeth argymhellion ar gyfer y cyfleoedd uniongyrchol sydd yng Nghymru i reoli adnoddau naturiol yn fwy cynaliadwy; rhoddir crynodeb ohonynt isod:

- **Gwneud ein Hardaloedd Trefol yn Wyrdd** – byddai adeiladu mwy o fannau gwyrdd yn ein hardaloedd trefol yn cyflawni'r canlynol:
  - gwella cysylltedd o fewn a rhwng ecosystemau
  - helpu'r gwaith o hidlo dŵr a gwella ansawdd dŵr
  - lleihau llifogydd dŵr wyneb
  - creu llefydd ar gyfer iechyd a hamdden
  - gwella cydlynid cymunedol a helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac ansawdd aer gwael
- **Cynyddu Gorchudd gan Goetiroedd** – byddai creu mwy o goetir a rheoli coetir presennol yn fwy cynaliadwy yn cyflawni'r canlynol:
  - helpu i gynyddu amrywiaeth a chysylltedd coetiroedd (gan eu gwneud yn fwy gwydn i wrthsefyll clefydau ac yn well ar gyfer bywyd gwyllt er enghraifft)
  - cynyddu adnoddau coetir
  - darparu deunyddiau adeiladu a thanwydd
  - helpu i leihau perygl llifogydd
  - helpu i storio carbon i fynd i'r afael â newid hinsawdd
  - darparu cyfleoedd hamdden i wella iechyd a hapusrwydd
- **Rheoli ein Harfordir yn Fwy Effeithiol** – byddai hyn yn cyflawni'r canlynol:
  - dod â mwy o fuddion i'r rhai sy'n byw'n agos ato trwy dwristiaeth a chyflogaeth
  - helpu i reoli'r bygythiad cynyddol gan lifogydd arfordirol oherwydd y codiad yn lefel y môr trwy ail-alinio dan reolaeth
  - cefnogi cynefinoedd arfordirol a bywyd morol

- **Adfer ein Gorlifdiroedd** – byddai cynnal, gwella ac adfer ein gorlifdiroedd yn gwella gallu afonydd i ymdrin â llifau isel ac uchel gan gyflawni'r canlynol:
  - lleihau perygl llifogydd
  - gwella ansawdd dŵr
  - cefnogi hamdden a gweithgarwch economaidd
- **Rheoli Pridd a Thir yn Well** – byddai gwella sut rydym yn rheoli pridd yn cyflawni'r canlynol:
  - diogelu cynhyrchu bwyd yn y dyfodol
  - cefnogi cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt
  - lleihau costau trin dŵr
- **Adfer Tir Mawn ar Ucheldiroedd** – byddai hyn yn cyflawni'r canlynol:
  - diogelu storau carbon er mwyn lleihau effeithiau newid hinsawdd
  - gwella cynefinoedd i rywogaethau sy'n dibynnu arnynt
  - helpu i leihau perygl llifogydd
- **Rheoli Ecosystemau Morol** – byddai rheolaeth integredig o ecosystemau morol trwy system wedi ei harwain gan gynllun yn hwyluso dealltwriaeth well o fuddion adnoddau morol naturiol ac yn gwneud y gorau posibl o'r defnydd ohonynt.
- **Newid Hinsawdd** – mae lliniaru ac addasu ar gyfer newid hinsawdd yn brif flaenoriaeth a byddai pob un o'r camau uchod yn helpu i gyfrannu'n sylweddol at hynny, yn ogystal â chyfrannu at sut rydym yn rhedeg ein sefydliad.

Bydd Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru yn amlinellu blaenoriaethau'r llywodraeth, y risgiau, a chyfleoedd i weithredu. Nod ein Hamcanion Llesiant yw helpu i roi sylw i gyfleoedd yn y polisi hwn a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.


Bydd Cymru'n parhau i brofi newidiadau sylweddol fel newid hinsawdd a newid yn y boblogaeth a'r economi, yn ogystal â newidiadau i gyllid cyhoeddus, Deddf Cymru 2017, a thrafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd yr holl ffactorau hyn yn cael effaith fawr ar ein sefydliad ac yn gyrru newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio yn y dyfodol. Rydym am fod yn feiddgar ac yn uchelgeisiol – o ran rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac o ran sut y gallwn newid fel sefydliad i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi rhoi pwyslais newydd i ni ac rydym yn newid y ffordd rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn ymgorffori'r naw egwyddor ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd ymgorffori'r rhain yn sicrhau ein bod yn cymhwyso'r egwyddor Datblygiad Cynaliadwy o ran y ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth i ni roi newidiadau o'r deddfau hyn ar waith, rydym yn cydnabod bod angen i ni weithio'n wahanol gyda phob rhanddeiliad yng Nghymru a chreu ffyrdd newydd o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi llesiant yn awr ac yn y dyfodol.

## Sut y Byddwn yn Gweithio

Mae cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn helpu i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac i gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau gweithredu i hyrwyddo'r amcan o reolaeth gynaliadwy.

Mae defnyddio naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (diagram isod) yn ein helpu i integreiddio ein gwaith a chysylltu â gwaith pobl eraill. Yn ei dro, mae'n ein helpu ni i fod yn arloesol yn y ffordd rydym yn cyflawni, gan adnabod ffyrdd newydd sy'n fwy effeithiol ac yn creu buddion cynyddol. Mae hyn yn allweddol er mwyn cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant. Bydd angen cryn ymdrech i sicrhau bod ein staff a'n partneriaid, cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gallu gweld hyn fel ffordd gydgysylltiedig o weithredu. Mae cynlluniau o'r fath yn chwarae rhan trwy helpu pawb i weld y cysylltiad clir rhwng eu gweithgareddau bob dydd a gwella llesiant Cymru.



Ceir enghraifft isod o sut rydym eisoes yn cyflawni buddion gwell trwy ddefnyddio syniadaeth rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein gwaith, a cheir enghreifftiau eraill trwy'r Cynllun Busnes hwn.

### Coetir Ysbryd Llynfi



Cyfle i greu 30 hectar o goetir newydd ei blannu, gan drawsffurfio safle diwydiannol blaenorol yn 75 hectar o goetir cymunedol amldefnydd yng Nghwm Llynfi Uwch. Mae'r safle'n dangos sut y gall tir sy'n cael ei danddefnyddio ddod â llawer o fanteision i'r amgylchedd ac i'r bobl leol, gan helpu cymunedau i fod yn iachach, i **adeiladu cydnerthedd** ac i ddod yn fwy llewyrchus. Yr her oedd dod â phobl at ei gilydd i ddatblygu adnodd coetir dynamig a chydnerth sy'n ymateb i anghenion pobl a'r amgylchedd wrth iddynt newid – heddiw ac yn y dyfodol. Dros y degawd diwethaf, gwnaeth ymchwiliadau safle, ynghyd â **thystiolaeth** a oedd yn dangos amddifadedd lleol a disgwyliad oes is, arwain at gyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a chwmi ceir Ford. Mae **gwaith cydweithio ac ymgysylltu** ag amryw bartneriaid, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi helpu i sicrhau bod y prosiect wedi bod yn llwyddiant hyd yma. Mae **cyfranogiad y cyhoedd**



wedi bod yn hanfodol yn ystod y gwaith cynnar o ddatblygu'r safle, ac fe fydd yn rhan anhepgor o'r gwaith o'i reoli yn y **tymor hir**. Roedd gweithio gyda chymuned i baratoi cynlluniau ar gyfer y safle'n galluogi anghenion a dyheadau lleol i gael eu hasesu a'u hymgorffori. Mae'r gymuned wedi chwarae rôl weithredol yn y gwaith o baratoi'r safle, gan gynnwys cymryd rhan yn y gwaith o blannu 60,000 o goed a 50,000 o fylbiau, dewis enw'r safle, creu ardal ddysgu awyr agored, a chymryd rhan yn y fenter gerflunio "Ceidwad y Pyllau Glo". Mae'r safle


wedi darparu nifer o fanteision, gan gynnwys creu lle hygyrch ar gyfer ymlacio ac ymarfer corff, bioamrywiaeth well a thirwedd well – yn ogystal â lleihau'r risg o lifogydd lleol. Mae'n darparu lle ar gyfer perfformio a dathlu treftadaeth ddiwydiannol lleol. Mae grŵp o wirfoddolwyr wedi'i leoli ar y safle wedi cael ei sefydlu â'r nod o sefydlu'r prosiect o fewn y gymuned ymhellach, gan sicrhau bod y safle'n llwyddiannus ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae prosiectau y bydd y grŵp yn cymryd rhan ynddynt yn cynnwys llwybr geogelcio, man gweithgareddau cŵn, creu pyllau, llwybr synhwyraidd, a rhaglen beilot ar gyfer rhagnodi ymarfer corff gwyrdd.



## Ein Rhaglen Weithredu

Bydd pwyslais ar ein Hamcanion Llesiant yn gofyn i ni adeiladu ar y gwaith integreiddio sydd wedi ei wneud eisoes. Erbyn 2020, rydym yn disgwyl gweld hwn ar waith ar draws pedwar maes allweddol:

1. Ein pobl, timau a diwylliant, lle mae gennym bwrpas a chyfeiriad amlwg, arweinyddiaeth ysbrydoledig, a diwylliant o ymddiriedaeth ac agosatrywydd.
2. Ein model cyflenwi, sy'n rhychwantu continwwm o fod yn sefydliad sy'n galluogi i fod yn sefydliad sy'n cyflenwi'n uniongyrchol – ac mae penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sail i hyn oll.
3. Ein ffyrdd o weithio, sy'n canolbwyntio ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
4. Ein strwythur, a fydd yn cael ei drefnu o gwmpas cyflenwi'n lleol lle y mae'n fwyaf priodol i wneud hynny, ac ar raddfa sy'n addas ar gyfer anghenion penodol.





## Ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2017/18

Rhoi sylw i'r cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn gallu cynyddu llesiant, a thrwy fabwysiadu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y ffordd rydym yn gweithio, rydym wedi datblygu ein casgliad cyntaf o Amcanion Llesiant. Rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi ei amcanion llesiant ei hun i ddangos ei gyfraniad at nodau llesiant Cymru. Gan ddechrau trwy **gynnwys** ein rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, rydym wedi ystyried sut y gallwn **gydweithio** gyda'n partneriaid ac **integreiddio** ein hamcanion gydag amcanion eraill ac ar draws y nodau llesiant. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau y bydd ein gweithgareddau'n atal heriau'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol rhag gwaethgu yn y tymor hir.

Amcan Llesiant	
1	<b>Hyrwyddo amgylchedd Cymru</b> a rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy
2	Sicrhau bod <b>tir a dŵr</b> yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig
3	Gwella <b>gwydnwch</b> ac ansawdd ein hecosystemau
4	Lleihau'r perygl i bobl a chymunedau gan <b>berylglon</b> amgylcheddol fel llifogydd a llygredd
5	Helpu <b>pobl i fyw bywydau iachach</b> a llawnach
6	Hyrwyddo <b>busnes llwyddiannus a chyfrifol</b> , yn defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
7	Datblygu ein sefydliad yn <b>sefydliad ardderchog</b> , sy'n cyflenwi gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid

Ein Hamcanion Llesiant fydd canolbwynt ein cynllun corfforaethol nesaf a byddwn yn defnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth weithio er mwyn eu cyflawni. Wrth wneud hyn, byddwn yn blaenoriaethu a dyrannu ein hadnoddau i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r nodau llesiant er budd Cymru gyfan.

### Gwella Ansawdd ein Haer ym Mhort Talbot



Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gylch gwaith i drwyddedu a rheoleiddio diwydiannau i sicrhau bod ein cenedl yn iachach, yn fwy llewyrchus ac yn gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae gweithiau dur Port Talbot yn enfawr. Mae ganddynt ddwy ffwrnais chwyth, gwaith dur, gwaith prosesu, ffyrnau golosg, tri safle tirlenwi, iardiau stoc deunyddiau craidd enfawr, harbwr, a'u gorsaf bŵer eu hunain. Mae gan y safle 50 km o ffyrdd a 100 km o reilffyrdd i hwyluso symud cerbydau miloedd o weithiau bob dydd. Mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn cynhyrchu llygredd yn yr aer, gan gynnwys PM10. Yn benodol, mae gennym rôl allweddol i leihau'r risg o'r safle hwn o ormodiant PM10 dyddiol, i atal hyn rhag digwydd, neu i gyfyngu ei barhad neu ei ddifrifoldeb.



O ran **tystiolaeth** ar gyfer rheoleiddio, rydym yn defnyddio data amser real gan fonitoriaid awdurdod lleol a leolir o gwmpas Port Talbot i asesu llygredd. Rydym wedi trwyddedu'r safle i sicrhau bod allyriadau sy'n cael eu rhyddhau yn y tarddle'n cael eu lleihau ac y defnyddir y

Technegau Gorau sydd ar Gael. Er yr ymdrechion hyn, ni nodwyd mai unrhyw broses neu weithgaredd sengl oedd y ffynhonnell fwyaf sylweddol. Mae'r dopograffeg a'r tywydd lleol yn gymhleth, mae gweithgareddau yn y gweithiau dir yn ddynamig, ac mae'r gwaith monitro'n cael ei effeithio gan ddigwyddiadau naturiol megis halen yn cael ei chwythu o'r môr. O ganlyniad, rydym yn defnyddio **rheolaeth ymaddasol** yn ein gwaith o reoli'r safle.

Trwy ein gwaith **cydweithio ac ymgysylltu**, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid diwydiannol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda chyngor ac arbenigedd gan Grŵp Arbenigwyr Ansawdd Aer y DU ac amryw brifysgolion y DU.

Mae **llawer o fanteision** i wella ansawdd; mae llygredd aer, o drafndiaeth a ffynonellau diwydiannol, er enghraifft, yn niweidio ein hiechyd a'n llesiant. Mae llygredd aer hefyd yn niweidio bioamrywiaeth, yn lleihau cynnyrch cnydau, ac yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. Mae ein cyfuniad o weithgareddau wedi gwneud gwahaniaeth ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n bosibl mai 2016 oedd y flwyddyn orau i gael ei chofnodi mewn wyth mlynedd ar gyfer ansawdd aer, gan wneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n byw yn ardal Port Talbot. Mae llawer o welliannau'n gofyn am weithgareddau **tymor hir** a buddsoddiadau o filiynau o bunnoedd – ond nid pob un. Mae ein hymyriadau a'n cyfarwyddyd wedi helpu i newid ymwybyddiaeth amgylcheddol o fewn y gweithiau dur; mae rhagor o ymwybyddiaeth o **weithgareddau ataliol** a phwysigrwydd rheoli prosesau er mwyn lleihau llygredd.

## Ein Gweithgareddau

Er mwyn cyflenwi mewn perthynas â'n Hamcanion Llesiant, rydym yn trefnu ac yn disgrifio ein gwaith trwy ddeg prif weithgaredd.

- **Rheoli ein tir a'n hasedau:** Creu, cynnal a gweithredu ein holl asedau, gan gynnwys at ddibenion masnachol.
- **Rheoleiddio:** Ein gwaith caniatáu, cydsynio, trwyddedu a phenderfynu. Yr holl waith cydymffurfiaeth a gorfodi rheoleiddiol, gan gynnwys ein gwaith mordwyo.
- **Darparu cyngor:** Gweithio i gynghori'r llywodraeth ar lefelau Cymru, y DU a'r UE, a chynghori cyrff a sefydliadau eraill hefyd. Ein holl fewnbwn a gwaith cynllunio yng nghyswllt materion cynllunio a rheoli datblygu, ynghyd â'n swyddogaeth yn y maes cynllunio gofodol strategol.
- **Samplu, dadansoddi a llunio adroddiadau:** Ein gwaith i gymryd samplau, monitro a mesur, ynghyd â gwaith dadansoddi, modelu ac adrodd ynghylch hyn.
- **Hamdden:** Hyrwyddo gweithgareddau hamdden ar ein tir a rheoli mynediad masnachol ac anfasnachol a chyfleusterau hamdden
- **Gwyddoniaeth ac ymchwil:** Datblygu ein sail dystiolaeth a goruchwylio rhaglenni monitro a samplu, ynghyd â datblygu gwyddoniaeth ac ymchwil gyda phartneriaid.
- **Cyflwyno grantiau:** Ein cyllid partneriaeth.
- **Ymateb i ddigwyddiadau:** Ymateb i, adolygu, llunio adroddiadau am, a dysgu o ddigwyddiadau.
- **Addysg, dysgu a sgiliau:** Ein gwaith i ddylanwadu a chefnogi addysg a dysgu ynghyd â hwyluso cyfleoedd addysg, dysgu a datblygu sgiliau.
- **Gwasanaethau galluogi:** Yr holl wasanaethau mewnlol sy'n cefnogi ein darpariaeth a'n gweithgareddau.

Yn fewnlol, rydym yn rhannu'r rhain yn haenau pellach o weithgareddau dilynol sy'n caniatáu i ni ddyrannu a blaenoriaethu ein hadnoddau ar draws ein sefydliad.

## Prosiect Afon Gafenni



Mae Afon Gafenni yn afon fer yn ne-ddwyrain Cymru sy'n llifo o'i tharddle trwy dref farchnad y Fenni, ac i Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg. Mae **tystiolaeth** yn awgrymu nad yw'r afon yn llwyddo i gyflawni ei statws DA fel y'i hamlinellir gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae pwysau'n cynnwys rhwystrau i ymfudo pysgod, yn ogystal â phroblemau trefol a gwledig ynglŷn â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle. Mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r pwysau hyn, gan ddefnyddio **cyfraniad y cyhoedd** pan fydd hynny'n briodol. Gwnaeth gwaith **cydweithio ac ymgysylltu** â'r gymuned leol ddangos cryn ddiddordeb a bodlonrwydd i gymryd rhan yn y gwaith o ddod o hyd i atebion i bwysau amgylcheddol. Nid oedd y cyfleoedd a ddaeth i'r amlwg yn gyfyngedig i welliannau i ansawdd dŵr yn unig, ond roedd diddordeb hefyd yn datblygu a rheoli cynefinoedd cyfagos er mwyn eu gwarchod ac ar gyfer eu gwerth fel mwynderau.



Gwnaeth dod ag amrediad eang o randdeiliaid at ei gilydd ehangu'r allbynnau ac ychwanegu cryn werth. Roedd opsiynau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a arweinir gan randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn amserlenni cynnal a chadw Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn y coridor torlannol. Roedd y dull **ymaddasol** hwn yn galluogi darparu nifer o fanteision lluosog eraill. Roedd y rhain yn cynnwys rheoli ardal o fannau gwyrdd trefol mewn modd cynaliadwy a rhoi

coed wedi'u cwmpo i'r grŵp coetir lleol ac ysgol goedwig leol ar gyfer crefftau ac i'w hailwerthu, yn ogystal â gwella cydnerthedd ecosystem yr afon a'r manau gwyrdd.

Roedd problemau ynglŷn â charthffosydd yn gorlifo – a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ansawdd dŵr – yn derbyn sylw mewn modd cyfannol, gan ganolbwyntio ar **weithgareddau ataliol** trwy nodi'r problemau megis mynediad dŵr wyneb yn y tarddle. Gwnaethom ddefnyddio tystiolaeth delemetrig wedi'i darparu gan Ddŵr Cymru Welsh Water (DCWW) i nodi amllder colliadau er mwyn targedu gwelliannau seilwaith. Roedd casgenni dŵr (a ddarparwyd gan DCWW) yn cael eu cynnig i ardaloedd â blaenoriaeth, sy'n gallu, os ydynt yn cael eu defnyddio'n gywir, cynyddu capasati carthffosydd hyd at 20,000 litr yn ystod storm.

## Cydgysylltu'r Gwaith Hwn


# Sut mae ein gwaith pob dydd yn cyfrannu at y nodau llesiant

Weithiau mae'n anodd gweld sut mae pethau rydym yn ei wneud ar lawr gwlad ledled Cymru yn cyfrannu at y gwaith o reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy; yr amcanion llesiant rydym wedi'u pennu ar ein cyfer ni ein hunain; ac yn y pen draw'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn gweithio ar y gweithgareddau hyn yn ystod ein gwaith pob dydd:

- Rheoli ein tir a'n hasedau
- Rheoleiddio
- Darparu cyngor
- Samplu, dadansoddi ac adrodd
- Rheoli digwyddiadau
- Gwyddoniaeth ac ymchwil
- Dyrannu grantiau
- Addysg, dysgu a sgiliau
- Gweithgareddau hamdden
- Gwasanaethau galluogi

- Rheoli addasol
- Cydweithio ac ymgysylltu
- Tystiolaeth
- Y tymor hir
- Manteision lluosog
- Cyfranogiad y cyhoedd
- Graddfa
- Gweithgareddau ataliol
- Adeiladu cydnerthedd



- Ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae ein hamcanion yn ein galluogi i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r Nod. Dyma'r amcanion:

- **Hyrwyddo** amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy
- Sicrhau bod **tir a dŵr** yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig
- Gwella **gwydnwch** ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r perygl i bobl a chymunedau gan **berygion** amgylcheddol fel llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i **fyw bywydau iachach** a mwy boddhaus
- Hyrwyddo **busnes llwyddiannus a chyfrifol**, yn defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi
- Datblygu CNC yn **sefydliad ardderchog** sy'n cyflenwi gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid


# Rheoli coedwigoedd – sut mae'n cyfrannu at y nodau llesiant



Yn ein Cynllun Busnes 2017–18, rydym wedi ymroddi i ailstocio 1,000 hectar o goetir ar y tir rydym yn ei reoli â chymysgedd o rywogaethau coed, gan helpu i greu rhagor o goetir a gwneud coetiroedd sy'n bodoli eisoes yn fwy amrywiol o ran oedran ac amrywiaeth y rhywogaethau.

Mae ein gwaith pob dydd i gyflawni ein gweithgareddau'n cael ei gynnal gan dîm bach, y mae eu gwaith yn cynnwys caffael coed ifanc (3.5 miliwn bob blwyddyn), rheoli contractwyr sy'n paratoi tir a phlannu coed, a hefyd sicrhau bod poblogaethau ceirw'n cael eu cadw ar lefel resymol er mwyn rhoi cyfle i goed sefydlu a ffynnu. Mae llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar y pum mlynedd gyntaf pan fydd y coed yn ifanc ac yn fwyaf agored i ddirodd. Mae'r tîm hwn yn cyfrannu at y gwaith o **reoli tir ac asedau**.

Mae'r gweithgareddau'n cael eu cynnal i gynhyrchu cnwd pren yn y tymor hir a sicrhau bod ecosystemau coetir yn fwy cydnerth.



Felly, mae ailstocio'n cyfrannu at bron pob un o'n hamcanion llesiant:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac integredig
- Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus
- Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol



## Rheoli addasol

Mae'r gwaith o ailstocio llennyrch a chnydau ifanc yn cael ei fonitro ac mae'r rheolaeth yn cael ei haddasu i ystyried atgynhyrchu naturiol yn ogystal â phlannu i gyflawni ein hamcanion.



## Graddfa

Rydym yn defnyddio dull tirwedd gyfan ar gyfer ailstocio, gan ystyried cynefinoedd coetir y tu allan i ffiniau coedwigoedd a'r cyfleoedd i gysylltu â'r rhain, e.e. adfer safleoedd coetir hynafol er mwyn gwella cysylltedd.



## Cydweithio ac ymgysylltu

Rydym yn cydweithio â chymdogion a rhanddeiliaid ynglŷn â materion megis dyfroedd asid o fewn dalgylchoedd. Yn ystod y cam ailstocio, rydym yn defnyddio'r cyfleoedd i flocio draeniau sy'n bodoli eisoes i arafu llofoedd dŵr, wrth gynyddu maint yr ardaloedd torlannol.



## Cyfranogiad y cyhoedd

Mae ein dull ar gyfer cynllunio'r gwaith o reoli coedwigoedd yn cynnwys cyfleoedd i'r cyhoedd ystyried a dylanwadu ar gynigion. Mewn rhai achosion, mae'r rhywogaethau sy'n cael eu plannu'n cael eu dewis o ganlyniad i gyfranogiad y cyhoedd, gan wella'r profiad ar gyfer ymwelwyr i'n safleoedd ni.



## Tystiolaeth

Mae'r tîm yn sicrhau eu bod yn gwybod am yr ymchwil ddiweddaraf o ran geneteg, technegau sefydlu a gwaith gwella coed, i sicrhau ein bod yn gallu llwyddo i sefydlu cnwd cydnerth a fydd yn parhau i ffynnu wrth i'r hinsawdd newid.



## Manteision lluosog

Mae ailstocio ardaloedd sydd wedi'u cwmpo yn fuddiol i'r gwaith o gynhyrchu pren yn barhaus ac mewn modd cynaliadwy, ac mae'n cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ecosystem y goedwig - e.e. rhaglenni rhywogaethau â blaenoriaeth mewn ardaloedd lle mai'r wiwer goch yn ffynnu. Mae'n darparu cyfleoedd economaidd ar gyfer cymunedau lleol, ac yn helpu i sicrhau bod coedwigoedd yn gydnerth ar gyfer y dyfodol.



## Y tymor hir

Mae coed yn cymryd blynyddoedd i dyfu, felly mae angen edrych i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod y coed ifanc sy'n cael eu defnyddio a dyluniad y safle'n ddigon cydnerth i ymdopi â'r rhagamcanion ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol. Mae ein coetiroedd yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a Chymru gydnerth, ac, yn y tymor hwy, Cymru iachach.



## Gweithgareddau ataliol

Trwy fabwysiadu cymysgedd o Systemau Coedamaeth Effaith Isel a chyfundrefnau cwmpo coed, mae ein gwaith o ailstocio'n ffordd o gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau ac amrywiaeth genetig, gan wneud y coetiroedd yn fwy cadarn rhag plâu a phathogenau.



## Meithrin cydnerthedd

Mae gwiddon pinwydd yn gallu cael effaith ddinistriol iawn ar y gwaith o sefydlu coed ifanc. Rydym yn defnyddio cymysgedd o ddulliau rheoli biolegol a chemegol i reoli hyn ac i greu coetiroedd sy'n fwy cydnerth.

Wrth inni ystyried **sut rydym yn cynnal y gwaith hwn, mae angen inni feddwl yn wahanol a sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**. Os ydym yn gweithredu ein diben diwygiedig ac yn meddwl amdano yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy weithredu ei naw egwyddor, fe welwn y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad ehangach byth.


Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r gweithgareddau a gynhelir gennym yn ymestyn ar draws ein Hamcanion Llesiant ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni. Mae' hefyd yn dangos sut rydym yn rhannu ymdrechion ein staff a'n cyllideb ar draws y gweithgareddau hyn.

Amcanion Llesiant							Prif Weithgareddau	FTE (Cyferth ag amser llawn)	£ miliwn
Hyrwyddwr amgylchedd Cymru	Tir a dŵr	Gwydnwch	Peryglon	Mae pobl yn byw yn iachach	Busnes llwyddiannus a chryfrol	Sefydliad arderchog			
1	2	3	3	5	6	7			
X	X	X	X	X	X		Rheoli ein Tir a'n Hasedau	478	65.3
X	X	X	X	X	X		Rheoleiddio	337	27.3
X	X	X	X		X		Darparu Cyngor	275	15.8
X	X		X	X		X	Samplu, Dadansoddi a Llunio Adroddiadau	202	13.6
X				X	X		Hamdden	56	5.0
X	X	X	X	X		X	Gwyddoniaeth ac Ymchwil	25	2.2
X			X				Ymateb i Ddigwyddiadau	80	3.7
X			X	X	X		Addysg, Dysgu a Sgiliau	6	0.3
X						X	Cyflwyno Grantiau	6	3.9
X						X	Gwasanaethau Galluogi*	331	36.7
Cyfanswm								1,796	173.8

\* Mae Gwasanaethau Galluogi'n cynnwys yr holl uwch reolwyr ac arweinwyr (51FTE a £2.4 miliwn o Gyfarwyddiaethau Gweithredol) a'n holl gyfalaf fflyd a thrawsnewid (£2.6 miliwn)

## Golwg Ariannol


Rydym yn datblygu ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, a fydd yn canolbwyntio ar ein Hamcanion Llesiant newydd. Mae gennym rywfaint o sicrwydd a rheolaeth ynghylch beth fydd ein cyllid dros y cyfnod amser hwnnw, er bod Cymorth Grant Llywodraeth Cymru'n cael ei gadarnhau'n flynyddol. Er ein bod wedi derbyn setliad Cymorth Grant cymharol gadarnhaol ar gyfer 2017/18, fe allem weld gostyngiad pellach o 2018/19 ymlaen. Mae'r graff isod yn dangos yr effaith y byddai gostyngiad o 5% yn ei chael hyd at 2020; byddai gennym fwllch cyllid o ryw £10 miliwn.



Rydym wedi cwblhau'r adolygiadau o bob maes o'n busnes ac rydym nawr yn ail-ddylunio ein sefydliad er mwyn i ni gael sefydliad cynaliadwy a fforddiadwy sy'n gallu bodloni ein huchelgeisiau.

## Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – O ble y daw ein cyllid

Mae'r graff isod yn dangos o ble y daw ein cyllid:



### Cymorth Grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddwn yn derbyn Cymorth Grant o £79 miliwn a £20 miliwn yn eu tro ar gyfer referniw a gweithgareddau cyfalaf y flwyddyn nesaf. O'r symiau hynny, rydym yn disgwyl y bydd £18.3 miliwn ac £16.2 miliwn yn cael eu gwario ar weithgareddau llifogydd. Ychwanegwyd cyllid ar gyfer gweithgareddau llifogydd gan Gymorth Grant a ddyrannwyd (£1.5 miliwn referniw a £3 miliwn cyfalaf) yn 2016/17 i'w gario drosodd i 2017/18 a chaiff ei gynnwys yn Incwm Arall yn y graff uchod. Fel y gwelir yn y graff uchod, byddwn yn derbyn £8 miliwn yn fwy o Gymorth Grant Cyfalaf nac a wnaethom yn 2016/17. Mae hyn oherwydd i fwy o'n cyllid Rhaglen Gyfalaf Llifogydd ddod o incwm a gafodd ei gario drosodd yn 2016/17 ac mae gennym ddyraniad ychwanegol o £2 filiwn ar gyfer ein Rhaglen Gyfalaf nad yw ar gyfer Llifogydd yn 2017/18.

### Incwm o Godi Tâl

Rydym wedi ymgynghori ynglŷn â'n ffioedd rheoleiddio ar gyfer y flwyddyn nesaf (£38 miliwn). Mae'r prif newidiadau i'r trefniadau ar gyfer ffioedd trwyddedu morol, lle y byddwn yn adennill ein holl gostau trwy'r ffioedd trwyddedu yn awr, a'n ffioedd tynnu dŵr, yr ydym wedi eu cynyddu 6% er mwyn i ni gyllido gwaith hanfodol ar gronfeydd dŵr sy'n eiddo i Dŵr Cymru Welsh Water.

### Incwm Masnachol ac Allanol

Yn bennaf, daw'r incwm hwn (£26 miliwn) o werthiannau pren, ac mae hefyd yn cynnwys ffynonellau eraill megis datblygiadau ynni gwynt a chanolfannau ymwelwyr, ac o weithgareddau hamdden a gweithgareddau eraill ar y tir a reolir gennym. Rydym yn bwriadu cynyddu ein hincwm o gyfleoedd masnachol gymaint â phosibl ac rydym yn cyhoeddi Cynllun Menter.


## Incwm Arall

Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chyllid a gariwyd trosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Yn 2016/17, gwnaethom ddefnyddio £25 miliwn, yr oedd cyfran fawr ohono'n Gymorth Grant Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Rydym yn rhagweld defnyddio £14 miliwn yn llai yn 2017/18 ond rydym yn dal i obeithio y gallwn gyllido pwysau ariannol sy'n codi o ddeddfwriaeth newydd a materion fel ymdrin â chlefyd llarwydd. Rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha un ai y byddwn yn derbyn cyllid ychwanegol i gael ei gario trosodd i'r flwyddyn nesaf i helpu gyda'r pwysau ariannol hynny.

## Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – Ar beth ydym ni'n ei wario?

Mae'r tabl yn yr adran 'Cydgysylltu'r Gwaith Hwn' yn dangos sut mae ein cyllideb yn cael ei gwario yn ôl gweithgarwch a sut mae hynny'n cyfrannu at yr Amcanion Llesiant.

Mae'r graff isod yn dangos sut caiff ein cyllideb ei dosbarthu rhwng mathau o wariant:



### Costau staff

Byddwn yn gwario £78.3 miliwn ar gostau staff (o'i gymharu ag £81 miliwn yn 2016/17) – er y bydd ein costau staff yn cynyddu o ganlyniad i'r ymarfer gwerthuso swyddi. Rydym wedi lliniaru'r effaith honno trwy reoli niferoedd staff a thrwy Gynllun Ymadael Gwirfoddol, gan arbed rhyw £4 miliwn y flwyddyn. Yn ogystal, rydym wedi cytuno ar leihad yn nifer y cyfraniadau mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru eu gwneud i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (£1 filiwn).

### Costau Gweithredu Eraill

Mae'r rhain hefyd wedi gostwng o £70 miliwn i £67.3 miliwn. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf o ganlyniad i lai o gyllid yn cael ei gario drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer rhaglenni gwaith penodol.

### Cyfalaf

£28.2 miliwn yw ein cyllideb rhaglen gyfalaf, £2 filiwn yn fwy nac yn 2016/17. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu ein Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd y flwyddyn nesaf ynghyd â gwaith hanfodol arall ar ddwyn cronfeydd dŵr i safon a Chynllun Clirio Coed hanfodol yng ngogledd Cymru.



## Y Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2017/18 – Buddsoddiad Parhaus

Wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Busnes hwn, mae ein cyfarwyddiaethau wedi adeiladu eu cynlluniau eu hunain. Rydym wedi blaenoriaethu pwysau heb eu hariannu o'r cynlluniau hyn a bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i'r rhai sydd â'r flaenoriaeth uchaf.

Rydym yn dechrau gwireddu'r buddion a ddaw yn sgil adolygu ein meysydd busnes, a fydd yn ein galluogi i leihau costau refeniw ymhellach y flwyddyn nesaf. Roedd hyn yn gyfwerth â £5 miliwn yn 2017/18 a £10 miliwn pellach erbyn 2019/20.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o drawsnewid ein sefydliad, ac rydym bellach yn gweld y buddiannau yn sgil symud i ffwrdd o'n dibyniaeth ar gyrff blaenorol. Ar gyfer 2017/18, mae gennym brosiectau £5 miliwn ar y gweill gan gynnwys trawsnewid ein gwefan i ddiwallu anghenion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Byddwn yn gwneud arbedion trwy ein Cynllun Myldea ac yn rheoli niferoedd ein staff yn ofalus, gan gadw recriwtio i isafswm ond yn sicrhau ein bod yn penodi i swyddi hanfodol a buddsoddi yn ein staff trwy Raglen Dysgu a Datblygu effeithiol.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein cyfleoedd menter ac yn manteisio i'r eithaf ar incwm ychwanegol, ac rydym wedi datblygu ein Cynllun Menter trwy ein gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hwn yn ymchwilio i gyfleoedd i ni a'n partneriaid ddefnyddio dulliau newydd wrth gyflawni ein blaenoriaethau. Er enghraifft, o ran ein prif ffynhonnell incwm masnachol, rhoi blwyddyn gyntaf ein cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer marchnata pren ar waith, gan barhau i dreialu "Gwerthiannau Sefydlog a Mwy" ac ailstocio 1,000 hectar.

Byddwn yn ymgymryd â llawer o waith Dylunio Sefydliadol gyda'r bwriad o gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn i ni gael sefydliad cynaliadwy a fforddiadwy dros gyfnod ein Cynllun Corfforaethol.

## Rheoli Risgiau

Rydym yn dal Cofrestr Risg Gorfforaethol i reoli risg busnes wrth gyflenwi'r cynllun hwn. Caiff ei diweddarau'n rheolaidd a'i hadolygu gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Y risgiau mwyaf sydd wedi cael eu nodi yw'r her rydym yn ei wynebu trwy leihau cyllid sector cyhoeddus, a sicrhau ein bod yn cynllunio'n strategol ac yn perfformio'n effeithiol yn wyneb newid sylweddol. Rydym wedi nodi ffyrdd o liniaru yn erbyn y risgiau hyn, gan gynnwys:

- Bydd newidiadau manwl yn digwydd yn ystod y flwyddyn na ellir eu cofnodi yn y Cynllun Busnes hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallwn hysbysu ein rhanddeiliaid o'r newidiadau hyn trwy sianeli eraill, gan gynnwys cyflwyniadau wyneb yn wyneb a diweddariadau ar ein gwefan.
- Bydd angen esbonio a thrafod yn ofalus unrhyw newidiadau mewn gwasanaeth sy'n codi o ganlyniad i'r arbedion tymor byr sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb eleni, ac unrhyw effeithiau dilynol, gyda'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, er mwyn rhannu disgwyliadau'n ofalus.
- Rydym wedi derbyn cyllid 'untro' ar gyfer rhai meysydd o'n gwaith ar gyfer 2016/17 fel ar gyfer *Phytophthora ramorum* (*P. ramorum*). Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw sicrwydd cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn ar hyn o bryd ar gyfer y dyfodol a byddwn yn ystyried hyn yn ofalus ar gyfer 2017/18 ymlaen.



## Prosiect Afonydd Iach

Mae'r rhaglen Afonydd Iach gyda Groundwork Cymru'n cynnal gwaith ar afonydd de-ddwyrain Cymru gyda'r nod o lanhau afonydd a gwella cynefinoedd er mwyn iddynt gefnogi poblogaethau mwy o bysgod brodorol fel eogiaid, brithyllod, llysywod a phenlletwadau. Mae poblogaethau pysgod yn llawer o'r afonydd hyn wedi lleihau oherwydd llygredd ac addasiadau artiffisial i sianeli'r afon sy'n atal pysgod rhag mynd at yr holl gynefinoedd afon sydd ar gael. Mae pysgod ymfudol yn bwysig ar gyfer cynnal ecosystem afon iach; mae'r pysgod yn ffynhonnell fwyd i grychuddod, gleision y dorlan a dyfrgwn. **Ceir tystiolaeth** trwy fonitro poblogaethau pysgod, sy'n cyfrannu at statws afonydd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; mae poblogaethau iach o amrywiaeth o rywogaethau o bysgod yn dangos system afon iach. Ers mis Ebrill 2015, mae Afonydd Iach wedi sefydlu ysgolion pysgod yn llwyddiannus neu wedi addasu 15 rhwystr i ymfudiad pysgod, gan wneud dros 30 cilomedr o gynefin afon yn hygyrch i bysgod ymfudol, ac mae wedi gwella 4.5 cilomedr pellach o gynefin afon trwy waith glanhau a chodi sbwriel. Mae **manteision lluosog** mewn ecosystem afon iach: i'r economi leol trwy swyddi a thwristiaeth, ac i bobl sy'n byw gerllaw, sy'n cael budd a mwynhad trwy welliannau i iechyd a gweithgareddau cerdded, pysgota neu ganwio. Trwy waith tynnu rhwystrau a chasglu sbwriel a gwastraff a gaiff ei dipio yn yr afon, mae'r effaith weledol yn well, mae'r amgylchedd dyfrol, ymfudiad pysgod a bywyd gwylt lleol yn elwa, ac mae'n lleihau perygl llifogydd. Trwy **gyfranogiad y cyhoedd**, mae Afonydd Iach yn ymgysylltu pobl leol â'u hafonydd trwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli, diwrnodau cymunedol i ofalu am yr afon, a chyfleoedd hyfforddi. Mae addysg a chyfranogi'n ymgorffori gwerthfawrogiad **tymor hir** o gynefinoedd afon, sy'n hanfodol ar gyfer cadwraeth afonydd a **chamau ataliol** i edrych ar eu holau yn y dyfodol. Mae Afonydd Iach hefyd yn gweithio gydag ysgolion cynradd i addysgu a chyflenwi eogiaid ac llysywod yn y dosbarth, gan sicrhau bod plant yn deall cynefinoedd afon ac yn edrych ar eu holau yn y dyfodol. Rydym wedi **cydweithio ac ymgysylltu** ag amryw o bartneriaid gan gynnwys Groundwork Cymru, Dŵr Cymru/Welsh Water, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Staedtler, Tesco a Western Power. Mae Afonydd Iach yn cyfateb i arian y Gronfa Gystadleuol gydag oriau gwirfoddolwyr.

## Ein Pobl

Rydym yn anelu at fod yn sefydliad lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cyflawni eu potensial. Mae'n hanfodol ein bod yn gofalu am ein pobl ac yn eu cynorthwyo yn eu gwaith a'u gyrfaoedd, er mwyn iddynt allu rhoi o'u gorau a'n helpu ni i gyflawni'r cynllun hwn. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn dibynnu ar sgiliau a gallu staff ac ar gydberthnasau gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid niferus. Un o'r prif amcanion yw gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn "lle gwych i weithio ynddo" ac, yn 2017/18, byddwn yn dal i ddilyn yr amcan hwn gydag amrywiaeth o fentrau parhaus a rhai newydd.

Gwnaed cynnydd da gennym yn 2016/17 o ran datblygu a chyflawni systemau a strategaethau i gefnogi a galluogi ein pobl i lwyddo, gan gynnwys ein:

- Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch

- Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisiâu Pobl
- Prosiect Gwerthuso Swyddi
- System Rheoli Perfformiad.

Yr hyn y byddwn yn canolbwyntio arno yn 2017/18 fydd gweithredu ein Strategaeth Datblygu Pobl a Thimau newydd ar gyfer 2016–20. Ei blaenoriaethau yw gwella:

- **Pwrpas a Chyfeiriad**
  - *bod yn glir*, ynglŷn â'n nodau
  - *sut rydym yn newid*, drwy gymryd rhan
  - *gweithlu*, ein siâp yn y dyfodol
- **Arweinyddiaeth**
  - *arweinyddiaeth*, trwy ein sefydliad drwyddi draw
  - gallu i arwain
- **Diwylliant**
  - *llesiant*
  - *agosatrwydd*, fel sefydliad newydd
  - *ffydd*, yn ein gilydd a chan eraill

Mae'r camau a mesurau cefnogi allweddol yn ein strategaeth yn ychwanegu at yr hyn a ddysgwyd gennym drwy ein Harolygon Pobl yn 2015 a 2016. Mae Grŵp Llywio Pobl a Thimau yn cefnogi gweithredu, gan weithredu fel catalydd ar gyfer newid a'n helpu i ddod yn lle gwych i weithio a thyfu ynddo er mwyn i bobl allu rhagori. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys:

- **Newid a Dylunio'r Sefydliad**  
Wrth i ni fynd i'r afael â'n heriau ariannol a'n ffyrdd newydd o weithio, ein prif ffocws fydd cefnogi ein pobl yn ystod y newidiadau y gallent fod yn eu hwynebu o ganlyniad i Adolygiadau Meysydd Busnes, Dylunio Sefydliadol, a'r rhaglenni newid sy'n dod i'r amlwg y bydd angen i ni eu cyflenwi.
- **Gwerthusiad Swyddi a Strwythur Tâl Diwygiedig**  
Byddwn hefyd yn ymgorffori ein cynllun newydd ar gyfer gwerthuso swyddi, a diwygiadau cytunedig i'n model tâl a graddio. Unwaith y bydd hwn wedi ei gwblhau, byddwn yn defnyddio'r cynllun i helpu i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Dyluniad Sefydliadol sy'n codi o'r Adolygiadau o Feysydd Busnes. Erbyn yr hydref, byddwn wedi adolygu ein lwfansau, mewn partneriaeth â'r undebau llafur a gyda chyfraniad gan y busnes.
- **Llesiant, Iechyd a Diogelwch**  
Byddwn yn parhau i ganolbwyntio mwy ar lesiant drwy'r sefydliad i gyd, yn enwedig o ystyried heriau ychwanegol y newidiadau busnes yn 2017/18. Rydym wedi gwneud llawer i ddatblygu ein hagweddau at iechyd a diogelwch, a byddwn yn parhau i wneud hyn trwy ein strategaeth a chyflenwad parhaus ein cynllun gwella, o ystyried yr ystod o risgiau yn y sefydliad, a'r effaith y gall y rhain ei chael ar ein staff, y cyhoedd a chontractwyr. Mae gwella ein systemau rheoli gwybodaeth, ac, yn bwysig, ein diwylliant, yn allweddol i hyn gan fod angen ymgorffori iechyd a diogelwch ym mhopeth a wnawn.

- **Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Bydd ein rhaglen datblygu rheolaeth "Tyfu" a rhaglen hyfforddiant y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn parhau trwy 2017/18 fel cymorth i reolwyr yn eu gwaith a thrwy newidiadau. Gan ddefnyddio ein dulliau rheoli perfformiad a dulliau eraill, rydym am rymuso pobl i achub y blaen yn agosach at y pwynt darparu'r gwasanaeth, a byddwn yn annog ac yn hybu arfer yn y maes hwn. Bydd ein rhaglen Datblygu Gweithredol ac Arwain yn parhau trwy 2017/18 i sicrhau cymorth i reolwyr i ddatblygu arweinyddiaeth gynaliadwy. Bydd rhaglen arweinwyr tîm hefyd yn cael ei datblygu yn ystod y flwyddyn.

- **Arloesi a Menter**

Byddwn yn cynyddu gallu'r sefydliad o ran arloesi, syniadau newydd a menter, drwy nodi a datblygu'r bobl ledled y sefydliad sydd wedi ymrwymo i sicrhau newid trawsffurfiol.

- **Y Gymraeg**

Byddwn yn parhau i roi safonau Comisiynydd y Gymraeg ar waith, ac yn cyflenwi nifer o fentrau hyfforddiant ac ymddygiad, gan adeiladu ar y cynnydd rhagorol yn y blynyddoedd diweddar. Byddwn yn parhau i annog dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

- **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Byddwn yn parhau i roi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015 i 2019 ar waith trwy ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Blynyddol. Yn ogystal, byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb yn ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau bod ein hymdrechion yn gwneud y gorau posibl o'r buddion i bawb trwy gyflawni'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn sefydliad cynhwysol ac rydym yn darparu cyfle cyfartal i bawb ni waeth beth yw eu priodweddau, eu cefndir neu eu diwylliant. Byddwn yn parhau i rannu arfer gorau yn ogystal â derbyn arfer gorau gan eraill i gyflawni'r gwasanaethau tecaf y gallwn.

## Ein Rhaglenni Trawsnewid

Mae ein cynllun gweithredu'n amlinellu sut rydym am drawsnewid ein sefydliad dros y pum mlynedd nesaf. Mae *sut* rydym yn cyflawni yr un mor bwysig â *beth* rydym yn ei gyflawni, ac mae angen i bopeth a wneir gennym ganolbwyntio ar gwsmeriaid. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys pum rhaglen drawsnewid – ac mae gan bob un ohonynt nifer o brosiectau sy'n anelu at gyflawni newidiadau sylweddol o ran sut rydym yn gweithio i ymateb i'n strwythur newydd a'r ddeddfwriaeth sy'n newid. Y rhaglenni hyn yw:

- **Ymgorffori Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein Gwaith**

Mae cyfres o brosiectau i sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wraidd ein holl waith. Byddwn yn defnyddio elfen Blaenoriaethau a Chyfleoedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i archwilio newidiadau sydd y tu hwnt i derfynau deddfwriaeth, ac yn helpu Cymru i symud at economi gylchol a rheoli'r trawsnewid tuag at economi garbon isel.

Mae gwaith partner ag eraill hefyd yn elfen hanfodol o'n dull o gyflawni ein gwaith. Bydd gweithio gyda'n gilydd o ddifrif, gan ddeall anghenion ein partneriaid – a fydd yn aml yn agos iawn at ein hanghenion ninnau – yn ein galluogi i wneud mwy gyda llai, oherwydd mae adnoddau pawb yn fwy cyfyngedig. Rydym yn croesawu cyfraniadau gan eraill er mwyn ffurfio partneriaethau cadarnhaol.

- **Canolbwyntio ar Gwsmeriaid**

Canolbwyntio ein gwasanaethau fel ein bod yn diwallu ac yn rhagori ar anghenion ein cwsmeriaid. Galluogi i bob rhan o'r sefydliad ddarparu'r profiad gorau posibl i'r cwsmer. Mesur ein hunain mewn perthynas â'n prif sbardunau ar gyfer boddhad.

- **Gwella Effeithiolrwydd a'r Ddarpariaeth Gwasanaethau – ein Hadolygiadau Meysydd Busnes**

Cynnal adolygiad manwl ar draws ein gwaith er mwyn nodi ffyrdd newydd o weithio sy'n fwy effeithiol, ac arbedion cost posibl. Byddwn yn rhoi ein canfyddiadau ar waith trwy ein rhaglen Dylunio Sefydliadol yn 2017/18.

- **Datblygu ein Pobl a'n Timau**

Gwneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle gwych i weithio a thyfu ynddo fel bod modd i'n pobl ragori a chyflawni perfformiad busnes gwell yn barhaus.

- **Datblygu Menter a Busnes**

Datblygu amrywiaeth eang o syniadau i gynhyrchu incwm a datblygu menter. Bydd ein Cynllun Menter newydd yn cynnwys cerrig milltir ar gyfer cynhyrchu incwm sy'n dangos yn glir yr enillion sydd er gael drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a thrwy weithio gyda phartneriaid a chymunedau.

Meddwl am egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth inni gynllunio adnoddau coedwig



**Y tymor hir a graddfa** – mae'r cynlluniau'n ystyried popeth, o gynllunio lleol tactegol i'r amserlen 50 mlynedd a throsodd, ac yn mynd y tu hwnt i gynlluniau unigol i ystyried y lefel genedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod y dull yn gydgyssylltiedig, ond yn llwyddo i adlewyrchu gwahanolrwydd lleol hefyd pan fydd hynny'n briodol.



**Rheoli addasol** - defnyddir dull hyblyg a chyson i adolygu ac ymateb i ddigwyddiadau, er enghraifft y ffordd rydym wedi gorfod diwygio ein cynlluniau oherwydd effaith clefyd llarwydd. Mae ymgorffori **gwydnwch** yn amgylchedd Cymru wrth wraidd y ffordd rydym yn rheoli coedwigoedd, yn ceisio bod o fudd i ecosystemau, bioamrywiaeth a chynefinoedd. Mae cynlluniau achredu'n sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae **cydweithio ac ymgysylltu** â phobl leol, defnyddwyr coedwigoedd, busnesau a'r trydydd sector yn rhan o'r gwaith o gynllunio a gweithredu. Mae cyfleoedd ar gyfer busnes, addysg a gweithgareddau hamdden yn cynrychioli rhai o'r cyfleoedd yn unig a gafodd eu harchwilio gyda chymunedau, partneriaethau a grwpiau lleol.

Mae **cyfranogiad y cyhoedd** yn cael ei gynnal i ffurfio sut mae'r goedwig yn cael ei defnyddio a gweld yr effaith y gall ei defnyddio ei chael yn lleol. Mae hyn yn cynnwys pethau megis yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, neu effaith gweithrediadau rheoli. Mae'r effaith y gallai'r goedwig a sut mae'n cael ei defnyddio yn y tymor hir ei chael ar ddal carbon, cemegion yn yr amgylchedd, neu ansawdd dŵr a gwanhau llifoedd yn rhan o sicrhau bod dull **ataliol** yn cael ei ddefnyddio. Mae monitro iechyd coedwigoedd yn un ffordd rydym yn sicrhau bod y **dystiolaeth** ddiweddaraf yn cyd-fynd â'n cynlluniau ni ac yn rhan o sut rydym yn eu haddasu gydag amser.

## Yr Hyn y Byddwn yn ei Gyflenwi yn 2017/18

Mae gennym strwythur o gynlluniau a dangosfyrddau ledled ein cyfarwyddiaethau, ein timau a'n prosiectau i sicrhau bod yr amcanion y gellir eu cyflawni a ddangosir yma a'n nifer o feysydd cyflenwi pwysig eraill i gyd yn cael eu cyflawni. Craffir ar ein perfformiad ar draws yr holl gynlluniau a dangosfyrddau hyn yn rheolaidd a byddwn yn cyhoeddi perfformiad mewn perthynas â'r amcanion allweddol y gellir eu cyflawni yn y cynllun hwn yn ein hadroddiadau perfformiad rheolaidd.

Rydym wedi canfod yr amcanion allweddol canlynol y gellir eu cyflenwi ar gyfer 2017/18 sy'n cefnogi cyflawni ein Hamcanion Llesiant. Ceir mwy o fanylion ynghylch sut mae'r rhain yn cael eu rhannu ar draws ein gweithgareddau yn Atodiad 2.

**Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy** i sicrhau bod y buddion a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol ar gael yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn bwriadu arwain trwy esiampl a bod yn esiampl o sut i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn y ffordd rydym yn gweithio o ddydd i ddydd yn 2017/18, gan gynnwys:

- Ymgorffori rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy newid sefydliadol, ar draws pob cyngor a chyfarwyddyd.
- Llunio adroddiadau am brosiectau penodol a Chynlluniau Cyflenwi Ardal sy'n dangos rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.
- Cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol 2017–22 yn hydref 2017.
- Hyrwyddo ac adeiladu ein statws carbon net cadarnhaol, cwblhau ein cynllun carbon cadarnhaol a'n targed lleihau carbon, a cheisio am gyllid pellach i'n datblygu fel esiampl o ddatgarboneiddio, a symud tuag at economi garbon isel.
- Cyflenwi prosiectau penodol fel: clirio 200 hectar o adferiad tir mawn ar ucheldiroedd.
- Defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth ein staff i ysbrydoli ein hunain ac eraill i fabwysiadu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac i ddarparu cyngor a gwneud y penderfyniadau gorau y gallwn.
- Darparu arbenigedd amgylcheddol mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac i randdeiliaid lleol a chenedlaethol.
- Mewn partneriaeth â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, adeiladu cyfleoedd i wella llesiant yn defnyddio'r amgylchedd naturiol mewn cynlluniau llesiant erbyn mis Mawrth 2018.

**Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig** i gefnogi amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd ac i ddarparu cartref i amrywiaeth o fywyd gwylt gan adnabod anghenion penodol cymunedau trefol a gwledig. Bydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn caniatáu i ni reoli tir, dŵr a'r ardal forol mewn ffordd lawer mwy integredig, gan sicrhau bod y gwasanaethau ecosystem a'r buddion maent yn eu darparu ar gael i ni yn awr ac yn y dyfodol. Mae gweithgareddau i ddangos hyn yn 2017/18 yn cynnwys:

- Dangos rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ymarferol ar dir a dŵr a reolir gennym ni.
- Dechrau troi'r cyfleoedd a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn weithredu ymarferol.

- Dechrau datblygu Datganiadau Ardal yn gydweithredol ar gyfer Cymru gyfan yn barod ar gyfer mis Mawrth 2019.
- Rhoi dyletswyddau ac agweddau deddfwriaethol newydd sy'n codi o ddeddfwriaeth, polisi a chyfarwyddyd domestig ac Ewropeaidd ar waith.
- Bod yn feiddgar ac yn arloesol, gan ddefnyddio ein pwerau arbrofol newydd i roi prawf ar ddulliau newydd.
- Ymateb i ymgynghoriadau cyngor cynllunio statudol o fewn lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.
- Datblygu Rhaglen Wella'r Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygiad, gan gynnwys gwelliannau dros y llinell sylfaen mewn arolygon blynyddol awdurdodau cynllunio lleol ac arolygon cwsmer datblygwyr.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu a datblygu canllawiau ar ymgynghoriad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chanllawiau ar sut i roi'r cynllun ar waith a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth i ni wneud ein penderfyniadau.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r adolygiad o Ystad Goed Llywodraeth Cymru.
- Darparu arweiniad i lywio datblygiad Rhaglenni Amgylchedd Naturiol Cwmnïau Dŵr fel rhan o gynlluniau busnes Adolygiad Cyfnodol 19.
- Cydweithio i wella statws cyrff dŵr. Sicrhau bod dŵr yn cael ei dynnu'n gynaliadwy.
- Cyflawni ein rhwymedigaethau i fonitro, asesu a llunio adroddiadau ar gyfer Cyfarwydddebau'r UE a deddfwriaeth y DU ar amser ac o safon.
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i lywio thema flaenoriaethol y Polisi Adnoddau Naturiol mewn perthynas â "Gwella llesiant cymunedol ac unigol" trwy agwedd sy'n seiliedig ar le a thirwedd.
- Datblygu Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru "Cynllun Gweithredu: Dyhead am Newid" mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a thirweddau dynodedig.
- Drafftio cyfarwyddyd ar asesu sensitifrwydd tirwedd mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy.

**Gwella gwydnwch ac ansawdd ein hecosystemau** i addasu i newid hinsawdd a phwysau eraill i ddarparu gwasanaethau hanfodol: aer a dŵr glân, bwyd a phren, pridd cynhyrchiol, a thirweddau a morweddau dymunol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw a'u mwynhau. Mae gwydnwch ecosystem yn golygu pa mor dda gall ecosystemau fynd i'r afael ag aflonyddu, naill ai trwy wrthsefyll yr aflonyddu neu ymaddasu iddo. Fodd bynnag, mae bioamrywiaeth er enghraifft yn dirywio a methodd Cymru, ynghyd â gweddill y DU a gwledydd eraill, â chyflawni ei thargedau bioamrywiaeth 2010 rhyngwladol a chenedlaethol. Mae angen i ni atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, a sicrhau bod ecosystemau'n ddigon gwydn i barhau i ddarparu'r gwasanaethau a buddion sydd eu hangen arnom i fyw. Mae gweithgareddau yn 2017/18 i wella gwydnwch ecosystemau'n cynnwys y canlynol:

- Datblygu agwedd strategol tuag at fioamrywiaeth a chadwraeth o ran sut byddwn yn gweithio a chydweithio i gyflawni'r Cynllun Adfer Natur. Cynnwys y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch yn Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. The not our NRP
- Rheoli safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig fel sail ar gyfer adfer natur a'n huchelgais i atal ac yna gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Er enghraifft, datblygu

rhaglen flynyddol o gamau gweithredu ar gyfer dychwelyd safleoedd gwarchoddedig i gyflwr ffatriol.

- Gwella cyflwr ein hecosystemau, er enghraifft cynnal cydymffurfiaeth rhaglen iechyd planhigion *P. ramorum* gan barhau gwaith clirio coed ar 9,000 hectar a rhaglen ailblannu ddilynol.
- Ehangu maint ecosystemau ble y gallwn. Er enghraifft, rydym yn bwriadu creu cynefinoedd ar 30 hectar trwy ein gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd. Cefnogi prosiectau ble y gallwn i wella gwydnwch ecosystemau a gwella cysylltedd rhwng cynefinoedd.
- Sicrhau ein bod yn ystyried gwydnwch ecosystemau yn nhermau eu prif nodweddion – amrywiaeth, maint, cyflwr, cysylltedd, a gallu i addasu.
- Penderfynu ar drwyddedau, cydsyniadau a hysbysiadau o fewn amserlenni statudol ac amserlenni cytundeb lefel gwasanaeth a pharhau i wella'r prosesau hyn.

**Lleihau'r perygl i bobl a chymunedau gan beryglon amgylcheddol fel llifogydd a llygredd.** Trwy ddefnyddio gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fel sail ar gyfer gweithio gydag eraill i geisio datrys rhai o'r materion hyn, gallwn nid yn unig leihau amlder a dwyster effeithiau peryglon fel llifogydd a llygredd, gallwn hefyd ddarparu buddion ychwanegol i bobl a gwella'r amgylchedd naturiol ar yr un pryd. Mae gweithgareddau yn 2017/18 i leihau peryglon yn cynnwys y canlynol:

### **Llifogydd**

- Cyflenwi cynlluniau sylweddol i liniaru llifogydd er mwyn lleihau'r perygl i dros 500 eiddo ychwanegol.
- Cynnal rhaglen waith y cytunwyd arni ar ein systemau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol ar gyfer ardaloedd sydd mewn perygl mawr i sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn y cyflwr gweithredu a fwriadwyd.
- Datblygu cronfa ddata unigol ar gyfer system perygl llifogydd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ac adeiladu tystiolaeth o berygl llifogydd gan bob ffynhonnell trwy waith mapio asesu perygl llifogydd.
- Cyflenwi rhaglen o ymgysylltiad â chymunedau sy'n cael blaenoriaeth i godi ymwybyddiaeth pobl o'u perygl llifogydd a'r camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd.
- Cyflenwi gwasanaeth effeithiol i ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd, gan ddarparu a llunio adroddiadau am ymateb effeithiol a chydgyssylltiedig i ddigwyddiadau amgylcheddol.

### **Llygredd**

- Cynnal gwiriadau o ansawdd ein dŵr ymdrochi erbyn dechrau mis Ebrill 2017 a gweithio gyda phartneriaid i unioni unrhyw broblemau a ganfuwyd.
- Canfod a mynd i'r afael â gweithgarwch llygredd difrifol anghyfreithlon, gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau
- Parhau i gefnogi rhaglen Taclo Tipio Cymru i alluogi cyflenwi strategaeth dipio Llywodraeth Cymru "Cymru Ddi-dipio".
- Parhau i reoli a rheoleiddio safleoedd diwydiannol a safleoedd gwastraff.
- Datblygu'r gwaith o gyflawni cydymffurfiaeth â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a swyddogaethau gorfodi yn barod i'w rhoi ar waith.



**Helpu pobl i fyw bywydau iachach a llawnach.** Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru. Mae dros ddwy filiwn hectar o dir yng Nghymru ac rydym yn rheoli 7% ohono'n uniongyrchol. Mae coed yn helpu i amsugno llygryddion a gwella ansawdd aer, a gall mynediad at fannau gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol. Mae gweithgareddau yn 2017/18 i ddarparu amgylchedd iach yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i adolygu a chynnal ein hasedau hamdden gan gynnwys beicio mynydd a mynediad hamdden i annog gweithgareddau hamdden a dysgu yn yr awyr agored yn ein cyfleusterau ac yn yr amgylchedd ehangach.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo'r defnydd o'r awyr agored i fod yn fwy egniol a gwella llesiant. Bydd dadansoddi data Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Pobl a'r Amgylchedd o gymorth i ni wrth wneud hyn.
- Cynyddu cyfleoedd am fynediad lleol at yr amgylchedd naturiol sy'n helpu i ddwyn cymunedau ynghyd, cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu, a datblygu balchder cymunedol ac ymdeimlad o le ar gyfer yr ardal.
- Ein gwaith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos buddion adnoddau naturiol i iechyd a llesiant.

**Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol, yn defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi.** Mae adnoddau naturiol yn darparu cyfleoedd busnes a chyflogaeth. Mae angen i ni hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol, gan annog tyfiant gwyrdd mewn amgylchedd diogel a dymunol. Mae gweithgareddau yn 2017/18 i hyrwyddo tyfiant gwyrdd yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i ymchwilio i gyfleoedd masnachol ar dir a reolir gennym gan gynnwys coedwigaeth, hamdden a defnydd gan drydydd partion.
- Cyflenwi ein rhaglen ynni adnewyddadwy gan gynnwys marchnata, adeiladu a rheoli prosiectau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr.
- Rhoi blwyddyn gyntaf ein cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer marchnata pren ar waith, gan barhau i dreialu "Gwerthiannau Sefydlog a Mwy" ac ailstocio 1,000 hectar
- Helpu i ddarparu swyddi o ansawdd da i gymunedau ledled Cymru, gan gynnwys lleoliadau gwaith i gefnogi'r Rhaglen Esgyn.
- Ar ein hystâd, ymchwilio i'r cyfle i gynnwys y trydydd sector i reoli gwirfoddolwyr gan gynnwys o fewn Gwasanaeth Prawf Cymru.
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio a chyflenwi ein model o roi cyllid i sefydliadau allanol a gomisiynwyd er mwyn gallu dechrau ei ddefnyddio ym mis Ebrill 2018.
- Ein gwaith gyda sectorau llywodraeth a busnes i helpu i alluogi'r datblygiad iawn yn y lle iawn wrth gefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel.

**Datblygu ein sefydliad yn sefydliad ardderchog, sy'n cyflenwi gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid.** Er mwyn cyflawni hyn oll, mae'n rhaid i ni newid y ffordd rydym yn gweithio, newid strwythur ein sefydliad, a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ein hunain. Rydym am weithio mewn ffordd sy'n fwy seiliedig ar le er mwyn ymateb yn lleol i gefnogi cynlluniau llesiant. Rydym am symleiddio ein gwasanaethau a chanolbwyntio ar y cwsmer ac rydym am barhau i ddysgu a gwneud ein penderfyniadau ar sail y dystiolaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael i ni. Mae gweithgareddau yn 2017/18 i'n datblygu i fod yn sefydliad ardderchog yn cynnwys:

- Gweithio'n gydweithredol ac mewn partneriaeth ag eraill ac edrych yn rhagweithiol ar sut gallwn ddatblygu amcanion llesiant sy'n cael eu rhannu gyda chyrrff cyhoeddus eraill er mwyn cyflenwi'r budd gorau i bobl Cymru.
- Datblygu'r anghenion tystiolaeth a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.
- Gwneud ein cyfraniad i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bod yn gyfrannwr effeithiol er mwyn i gynlluniau llesiant pob un ohonynt adlewyrchu adnoddau naturiol gwydn.
- Cyflenwi ein Strategaeth Timau a Phobl i'n helpu i ddod yn lle gwych i weithio a thyfu ynddo er mwyn i bobl a thimau ragori a chyflenwi perfformiad busnes gwell yn barhaus.
- Cefnogi'r gwaith o roi ein dyluniad sefydliadol a ffyrdd newydd o weithio ar waith.
- Cyflenwi ein Rhaglen Canolbwyntio ar y Cwsmer.
- Parhau i greu arbedion, er enghraifft o fewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Rheoli Fflyd, Llety, a Chaffael.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Menter i wella cyfleoedd masnachol.
- Gwerthuso a gwneud y gorau posibl o wybodaeth ac arbenigedd helaeth ein staff.
- Dysgu'n barhaus i wella sut rydym yn gweithio a diweddarau ein sail dystiolaeth er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth orau y gallwn.



## Rhannu Gwybodaeth â Ffermwyr



Roedd angen inni fod yn **ymaddasol** yn y ffordd roeddem yn rhannu gwybodaeth â'r gymuned ffermio, gan sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am reoliadau perthnasol a chymorth i gydymffurfio. Rydym yn gwybod bod blaenoriaethau a gyrwyr yn amrywio'n ddaearyddol, felly dechreuodd staff yn ne-ddwyrain Cymru ddefnyddio dull newydd gyda rhanddeiliaid. Wedyn mae dulliau llwyddiannus yn cael eu rhannu i'w mabwysiadu ledled Cymru yn fewnol a chan bartneriaid allanol.

Roedd **cydweithio ac ymgysylltu** â Chyswllt Ffermio yn ei gwneud yn bosibl ymgysylltu â chynulleidfa ehangach o lawer ar draws y gymuned ffermio. Maent yn uchel eu parch ymhlith ffermwyr ac maent wedi llwyddo i roi pellter gwerthfawr rhyngom ni a'n cyngor. Roeddent yn gallu bod yn **ymaddasol** trwy gynnwys ein negeseuon allweddol mewn digwyddiadau, taflenni ffeithiau ac erthyglau. Roedd digwyddiadau a gynhaliwyd yn gynnar yn 2016 â'r nod o helpu ffermwyr trwy ddarparu cyngor a chymorth technegol ar gyfer ymdopi â phriddoedd ar ôl y gaeaf gwlyb er mwyn **atal** problemau pridd.

Gall Cyswllt Ffermio deilwra cyngor, erthyglau, hyfforddiant a dulliau eraill, yn dibynnu ar y broblem o dan sylw a sut maent yn ymwneud â daearyddiaeth amrywiol Cymru - **gan ddefnyddio'r raddfa** briodol. Er enghraifft, mae hyfforddiant yn cael ei deilwra i'r gynulleidfa yn ddibynnol ar ffactorau megis ei gwybodaeth dechnegol a'i llythrennedd cyfrifiadurol.

Gellid cyflawni **manteision lluosog** hefyd trwy gysylltu negeseuon â nifer o randdeiliaid ynglŷn â materion roeddem yn awyddus iddynt gael eu trosglwyddo, megis canllawiau rheoli pridd a maetholion er mwyn llwyddo i gydymffurfio â gofynion amaeth-amgylchedd, e.e. Glastir, a safonau sicrhau ansawdd y diwydiant amaethyddol.

## Adrodd ar ba mor dda rydym yn perfformio

Fel sefydliad sy'n darparu gwasanaeth, mae angen i ni allu dangos pa mor dda rydym wedi perfformio. Mae'r hyn y gallwn ei gyflawni mewn perthynas â phob un o'n Hamcanion Llesiant uchod yn caniatáu i ni fonitro a dangos cynnydd; byddant yn ffurfio dangosfwrdd y bydd ein Bwrdd yn ei ddefnyddio dair gwaith y flwyddyn i graffu ar gyflenwi ac i ddwyn ein Gweithrediaeth i gyfrif. Byddwn yn cyhoeddi'r dangosfwrdd hwn yn dangos pa mor dda rydym wedi perfformio mewn adroddiad perfformiad bob tro y bydd ein Bwrdd yn craffu arno, yn ogystal ag o fewn ein Hadroddiad Blynyddol.

Mae gennym strwythur o gynlluniau a dangosfyrddau hefyd ledled ein cyfarwyddiaethau, ein timau a'n prosiectau i sicrhau bod yr amcanion y gellir eu cyflawni a ddangosir yma a'n nifer o feysydd cyflenwi pwysig eraill i gyd yn cael eu cyflawni. Craffir ar ein perfformiad mewn perthynas â'r holl gynlluniau a dangosfyrddau hyn yn rheolaidd.

Bydd ein hadroddiad perfformiad yn ein llywio tuag at agwedd o atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei hargymhell. Byddwn yn defnyddio mesurau i ddangos ein bod yn "gwneud gwahaniaeth".

Fel rhan o'r adroddiad perfformiad hwn, rydym wedi dechrau datblygu casgliad o ddangosyddion ar gyfer pob un o'n Hamcanion Llesiant ac yn y pen draw pob un o'r nodau llesiant. Bydd y rhain yn briodol i'n cylch gwaith ac yn ein galluogi ni i ddilyn tueddiadau yn adnoddau naturiol Cymru, eu rheolaeth gynaliadwy, a'r llesiant maent yn ei gefnogi. Bydd manylion llawn y dangosyddion, ac unrhyw newidiadau neu dueddiadau a ddisgwylir gennym neu yr hoffem eu gweld, ar gael yn ein Cynllun Corfforaethol 2017–22.

## ATODIAD 1 – Dangosfwrdd Adrodd 2017/18

## Cyfoeth Naturiol Cymru: Mesurau Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes 2017/18

Cyflenwi yn y Tymor Hir	Disgrifiad Mesur Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes	Prif Amcan Llesiant
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> <li>✓</li> </ul>	<p>Cwblhau Datganiadau Ardal erbyn Rhagfyr 2019</p> <p>Darparu arbenigedd amgylcheddol mewn cyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Ymgorffori gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy newid sefydliadol, ar draws pob cyngor a chyfarwyddyd erbyn Mawrth 2018</p> <p>Cyrraedd ein targed lleihad carbon blynyddol o 5%, cwblhau ein prosiect carbon positif erbyn Medi 2017, a hyrwyddo ein statws carbon positif</p> <p>Creu 230 hectar o gynefinoedd trwy amddiffynfeydd llifogydd a gwaith prosiect carbon positif erbyn Mawrth 2018</p>	<p><b><u>Hyrwyddo</u></b> <b>amgylchedd Cymru a'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> </ul>	<p>Bod yn feiddgar ac yn arloesol, gan ddefnyddio ein pwerau arbrofol newydd i roi prawf ar ddulliau newydd</p> <p>Cwblhau 100% o'n gwiriadau ar ansawdd ein dŵr ymdrochi erbyn dechrau Ebrill 2017 a gweithio gyda phartneriaid i unioni unrhyw broblemau a ganfuwyd</p> <p>Datblygu cyfarwyddyd ar sut i roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sydd ar ddod a gwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith yn ein prosesau gwneud penderfyniad <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Ailstocio 1,000 hectar o bren <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Cyngori cwmnïau dŵr ar eu cynlluniau tymor hir <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Penderfynu ar 90% o geisiadau am drwyddedau o fewn amserlenni statudol ac amserlenni cytundeb lefel gwasanaeth a pharhau i wella'r prosesau trwyddedu</p>	<p><b>Sicrhau</b> <b><u>bod tir a dŵr</u></b> <b>ynghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn ffordd integredig</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> <li>✓</li> </ul>	<p>Cynlluniau llesiant yn adlewyrchu adnoddau naturiol gwydn a chyfrannu cymaint â phosibl at amcanion llesiant</p> <p>Datblygu dull strategol ar gyfer ein ffordd o weithio a chydweithio i gyflenwi'r Cynllun Adfer Natur erbyn Mawrth 2018</p> <p>80% o'n rhaglen flynyddol o gamau gweithredu wedi ei chwblhau neu'n mynd rhagddi i wella cyflwr safleoedd dynodedig erbyn Mawrth 2018</p> <p>Cynnal asesiadau iechyd coed a chyhoeddi hysbysiadau iechyd planhigion yn brydlon</p> <p>Clirio 9,000 hectar o goed i reoli clefyd llarwydd (<i>P. ramorum</i>) ar ein hystad <i>erbyn Mawrth 2018</i></p>	<p><b>Gwella</b> <b><u>gwydnwch</u></b> <b>ac ansawdd ein hecosystemau</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> </ul>	<p>Cyflenwi gwasanaeth effeithiol i ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd, gan ymateb yn effeithiol a chydgyssylltiedig i ddigwyddiadau amgylcheddol <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Cynnal 99% o asedau rheoli perygl llifogydd ac arfordirol yn y cyflwr gweithredu a fwriedir <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Adeiladu cynlluniau sylweddol i liniaru llifogydd er mwyn lleihau'r perygl i 500 eiddo, gan gynnwys cynlluniau yn y Rhath, Crindai a Llanelwy <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Rhoi dull a system fonitro newydd ar waith i orfodi <i>troseddwr anghyfreithlon</i> erbyn mis Mawrth 2018</p> <p>Lleihau effaith a niferoedd y safleoedd gwastraff a diwydiannol trwyddedig sy'n perfformio waethaf. Gwneud cynnydd ar safleoedd hysbys a dechrau gwaith ar safleoedd sydd wedi eu canfod o'r newydd. Rhoi cynllun ar waith ar gyfer 90% o safleoedd a nodwyd</p>	<p><b>Lleihau'r perygl i bobl a chymunedau gan</b> <b><u>beryclon</u></b> <b>amgylcheddol fel llifogydd a llygredd</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> </ul>	<p>Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo'r defnydd o'r awyr agored i ddod yn egniol a gwella llesiant Cynyddu cyfleoedd am fynediad lleol i'r amgylchedd naturiol sy'n helpu i ddwyn cymunedau at ei gilydd</p> <p>Paratoi ein dehongliad o'r data o Arolwg Cenedlaethol Cymru <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Adolygu a chynnal ein hasedau hamdden gan gynnwys beicio mynydd a mynediad hamdden i annog gweithgareddau hamdden a dysgu yn yr awyr agored <i>erbyn Mawrth 2018</i></p>	<p><b>Helpu</b> <b><u>popl i</u></b> <b><u>fyw bywydau</u></b> <b><u>iachach</u></b> <b>a mwy boddhaus</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> </ul>	<p>Gwella effaith ac ansawdd ein cyngor <i>erbyn Rhagfyr 2017</i></p> <p>Symud tuag at fodel o roi cyllid i sefydliadau allanol a gomisiynwyd erbyn Ebrill 2018</p> <p>700 km<sup>3</sup> o bren i'r farchnad erbyn Mawrth 2018. Adolygu ein treial 'Gwerthiannau Sefydlog a Mwy' i ddod â phren ychwanegol (hyd at 150 km<sup>3</sup>) i'r farchnad erbyn Mawrth 2018</p> <p>Cyflenwi rhaglen ynni adnewyddadwy, gan gynnwys marchnata, adeiladu a rheoli prosiectau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr</p> <p>Ymateb i ymgynghoriadau cynllunio o fewn amserlenni y cytunir arnynt</p>	<p><b>Hyrwyddo</b> <b><u>busnes</u></b> <b><u>llwyddiannus</u></b> <b><u>a chyfrifol</u></b> <b>yn defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi</b></p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>✓</li> </ul>	<p>Y mesur ansawdd cydweithio i'w gadarnhau</p> <p>Rhoi ein strwythur sefydliadol newydd ar waith yn llawn erbyn Mawrth 2018</p> <p>Cyflenwi ein Rhaglen Canolbwyntio ar y Cwsmer, gan gynnwys cynnydd yn nifer y contractau sy'n cynnwys cymalau budd i'r gymuned <i>erbyn Mawrth 2018</i></p> <p>Canlyniadau gwell yn ein harolwg staff Hydref 2017 o ganlyniad i roi ein strategaeth timau a phobl ar waith</p>	<p><b>Datblygu CNC yn</b> <b><u>sefydliad</u></b> <b><u>ardderchog</u></b> <b>sy'n cyflenwi gwasanaeth o'r radd flaenaf i gwsmeriaid</b></p>

## ATODIAD 2 – Yr hyn y Byddwn yn ei Gyflenwi yn 2017/18 yn ôl Gweithgareddau

Mae'r gweithgareddau a gynhelir gennym yn cefnogi cyflawni ein Hamcanion Llesiant. Rydym wedi canfod y rhai allweddol y gellir eu cyflenwi ar gyfer 2017/18 ar draws ein gweithgareddau isod. Mae gennym nifer o feysydd cyflenwi eraill pwysig ac mae gennym strwythur o gynlluniau a dangosfyrddau ledled ein cyfarwyddiaethau, timau a phrosiectau i sicrhau y gellir eu cyflawni. Byddwn yn cyhoeddi ein perfformiad yn ein hadroddiadau perfformiad rheolaidd.

### Rheoli ein Tir a'n Hasedau

(Creu, cynnal a gweithredu ein holl asedau, gan gynnwys at ddibenion masnachol.)

#### Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol

- Cyflenwi cynlluniau sylweddol i liniaru llifogydd er mwyn lleihau'r perygl i dros 500 eiddo gan gynnwys cynnydd ar gynlluniau yn y Rhath (Caerdydd), Crindai (Casnewydd) a Llanelwy (Sir Ddinbych)
- Rhoi cynllun gweithredu Adolygu Meysydd Busnes Rheoli Perygl Llifogydd ar waith a chyflenwi prosiectau gwella allweddol
- Cyflenwi gwaith o greu cynefinoedd ar 30 hectar trwy ein gwaith ar amddiffynfeydd llifogydd i wella buddion ecosystemau niferus gan gynnwys bioamrywiaeth.

#### Cynnal Systemau Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol

- Cyflawni'r rhaglen flynyddol o waith y cytunwyd arni fel bod 99% o systemau rheoli perygl llifogydd mawr a pherygl arfordirol yn cael eu cynnal yn y cyflwr gweithredu a fwriedir
- Datblygu cronfa ddata unigol ar gyfer system perygl llifogydd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ac adeiladu tystiolaeth o berygl llifogydd gan bob ffynhonnell trwy waith mapio asesu perygl llifogydd.

#### Cynhyrchu Pren

- Rhoi blwyddyn gyntaf ein cynllun marchnata pren pum mlynedd newydd ar waith. Dod â 700 cilomedr<sup>3</sup> o bren i'r farchnad
- Parhau i dreialu "Gwerthiannau Sefydlog a Mwy" i ddod â 150 cilomedr<sup>3</sup> pellach o bren i'r farchnad. Adolygu'r dull newydd hwn yn y trydydd chwarter ac adrodd ar sut mae'n cyflawni amcanion y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau'r adolygiad o Ystad Goed Llywodraeth Cymru
- Ailstocio 1,000 hectar.

#### *P. ramorum*

- Cynnal cydymffurfiaeth rhaglen iechyd planhigion *P. ramorum* Clirio 9,000 hectar parhaus o goed a rhaglen ailblannu ddilynol.

#### Ynni Gwyrdd a Chyfleoedd Masnachol Eraill

- Cyflenwi ein Rhaglen Ynni gan gynnwys marchnata, adeiladu a rheoli prosiectau ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr, er enghraifft Fferm Wynt Pen y Cymoedd a Gorllewin Brechfa
- Sefydlu cynlluniau ynni dŵr hunanadeiladu posibl gan gynnwys parodrwydd posibl ar gyfer cynllunio pum cynllun ynni dŵr.

## **Cam Gweithredu Safle Gwarchodedig**

- Datblygu agwedd strategol tuag at fioamrywiaeth a chadwraeth o ran sut byddwn yn gweithio a chydweithio i gyflawni'r Cynllun Adfer Natur.
- Datblygu rhaglen flynyddol o gamau gweithredu ar gyfer dychwelyd safleoedd gwarchodedig i gyflwr ffafriol. Sicrhau bod 80% o'r camau gweithredu hyn wedi eu cwblhau neu'n mynd rhagddynt erbyn diwedd y flwyddyn. Cwblhau camau gweithredu ar archwiliadau 12 Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

## **Rheoleiddio**

(Ein gwaith yn caniatáu, cydsynio, trwyddedu a phenderfynu. Yr holl waith cydymffurfiaeth a gorfodi rheoleiddiol, gan gynnwys ein gwaith mordwyo)

### **Penderfynu ar Drwyddedau ar Amser**

- Penderfynu ar 90% o geisiadau am drwyddedau o fewn amserlenni statudol ac amserlenni cytundeb lefel gwasanaeth a pharhau i wella'r prosesau trwyddedu
- Cyflawni rhwymedigaethau statudol dan Hysbysiadau Iechyd Planhigion gan gynnwys targedau ar gyfer cyflymder cyflwyno hysbysiadau a chydymffurfiaeth
- Cyflenwi asesiadau Adran 83 Iechyd Coed ar ran Llywodraeth Cymru
- Rhoi dull gwaith newydd ar waith ar gyfer cyngor trwyddedu a chynllunio i leihau effaith ar gynefinoedd sensitif
- Gweithio gyda phartneriaid lle mae dyletswyddau rheoleiddio'n rhyngweithio.

### **Canfod a Mynd i'r Afael â Gweithgarwch Anghyfreithlon Difrifol**

- Safleoedd gwastraff a diwydiannol trwyddedig. Lleihau effaith a niferoedd y safleoedd sy'n perfformio waethaf (D, E ac F). Gwneud cynnydd ar safleoedd hysbys; dechrau gwaith ar safleoedd sydd wedi eu canfod o'r newydd. Rhoi cynllun ar waith ar gyfer 90% o safleoedd a nodwyd.
- Cymryd camau gweithredu i gefnogi "Tuag at Ddyfodol Diwastaff".
- Byddwn yn rhoi dull newydd a system fonitro ar waith i orfodi troseddwr anghyfreithlon erbyn mis Mawrth 2018
- Parhau i gefnogi rhaglen Taclo Tipio Cymru i alluogi cyflenwi strategaeth dipio Llywodraeth Cymru "Cymru Ddi-dipio"
- Datblygu'r gwaith o gyflawni cydymffurfiaeth â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a swyddogaethau gorfodi yn barod i'w rhoi ar waith.

### **Ansawdd Aer a Dŵr**

- Rydym yn cynnal 100% o'r gwiriadau ar ansawdd ein dŵr ymdrochi erbyn dechrau mis Ebrill a gweithio gyda phartneriaid i unioni unrhyw broblemau a ganfuwyd
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â llygredd
- Rhoi newidiadau i ddeddfwriaeth ar waith i sicrhau gwelliant parhaus o ran ansawdd aer.

## **Darparu Cyngor**

(Darparu cyngor i gynghori'r llywodraeth ar lefelau Cymru, y DU a'r UE, a chynghori cyrff a sefydliadau eraill hefyd. Ein holl fewnbwn a gwaith cynllunio yng nghyswllt materion cynllunio a datblygu, ynghyd â'n rôl ym maes cynllunio gofodol strategol)

### **Darparu Cyngor Cynllunio ar Amser**

- Ymateb i ymgynghoriadau statudol o fewn amserlenni lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt; 95% o geisiadau rheoli datblygiad o fewn 21 diwrnod neu fel y cytunwyd fel

arall; pob Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o fewn amserlenni statudol; pob Cynllun Datblygu Lleol, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Datblygiad Cynaliadwy perthnasol o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt

- Datblygu Rhaglen Wella'r Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygiad, gan gynnwys gwelliannau dros y llinell sylfaen mewn arolygon blynyddol awdurdodau cynllunio lleol ac arolygon cwsmer datblygwyr
- Darparu cyngor ac arweiniad i lywio'r gwaith o integreiddio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gyda'r Polisi Adnoddau Naturiol, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- Cefnogi cyflawni Glastir.

### **Ymgorffori Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn ein Gwaith**

- Ymgorffori newid ymddygiad o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy hyfforddiant ymgysylltu â staff, pecynnau cymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau, a phrosesau corfforaethol, cynllunio busnes a llywodraethu. Ymgorffori'r amcan o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar draws pob cyngor a chyfarwyddyd
- Adrodd am brosiectau penodol a Chynlluniau Cyflenwi Ardal sy'n dangos rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol.

### **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

- Gwneud ein cyfraniad i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bod yn gyfrannwr effeithiol er mwyn i gynlluniau llesiant pob un ohonynt adlewyrchu adnoddau naturiol gwydn a chyfrannu cymaint â phosibl i amcanion llesiant.

### **Datblygu ein Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd**

- Adrodd ar ein cynnydd gyda'n Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Rhoi camau gweithredu o'r cynllun gweithredu Adolygiad Meysydd Busnes ar waith a chyflawni prosiectau gwella allweddol.

### **Adolygiad Cyfnodol Cwmnïau Dŵr 19**

- Erbyn mis Mehefin 2017, cynhyrchu cyfarwyddyd a disgwyliadau eglur i lywio datblygiad Rhaglenni Amgylchedd Naturiol Cwmnïau Dŵr fel rhan o gynlluniau busnes Adolygiad Cyfnodol 19, sy'n cynnwys anghenion buddsoddi yn y tymor hir.
- Rhoi cyngor a chyfarwyddyd i gwmnïau dŵr ynglŷn â datblygiad eu Cynlluniau Sychder a'u Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr 25 mlynedd, sy'n nodi sut maent yn bwriadu darparu cyflenwad diogel o ddŵr i bobl a busnesau yn eu hardaloedd, wrth warchod yr amgylchedd
- Datblygu a chefnogi cynlluniau gwaith, ymgysylltu a chyfleoedd i gydweithio i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy gyd-destun pecynnau gwaith trawsnewid yr UE erbyn mis Mawrth 2018.

### **Canfod cynllun i gydymffurfio ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch, gan gynnwys cydweithio i gyflenwi'r Cynllun Adfer Natur**

- Paratoi a chyhoeddi ein cynllun ynglŷn â sut y byddwn yn cydymffurfio â'n dyletswyddau uwch o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i gyflenwi camau gweithredu a nodwyd er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Adfer Natur
- Datblygu uchelgeisiau i'r dyfodol ar gyfer cytundebau rheoli, gan gynnwys eu cyllido. Cydgysylltu cyngor a datblygu data a chyflenwad cynlluniau rheoli tir.

- Datblygu a gweithredu strategaeth dynodi safle
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i derfynu Rhaglen Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar y cyd a'i rhoi ar waith.

### **Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru**

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Newid Morol Llywodraeth Cymru. Darparu ymateb ffurfiol i ymgynghoriad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Darparu cyfarwyddyd ar sut i weithredu'r cynllun a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein prosesau o wneud penderfyniadau, ynghyd â chyngor a chyfarwyddyd mewn perthynas â datblygiad y diwydiant morol. Cadarnhau'r agwedd tuag at Ddatganiadau Ardal yn yr amgylchedd morol a rhoi cyngor a chefnogaeth i'w rhoi ar waith. Cefnogi'r gwaith o roi ein Hadolygiad Morol ar waith.

### **Dyletswyddau Deddfwriaethol Newydd**

- Rhoi dyletswyddau ac agweddau deddfwriaethol newydd sy'n codi o ddeddfwriaeth, polisi a chyfarwyddyd domestig ac Ewropeaidd ar waith. Yn benodol:
  - Adolygiadau Cyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol
  - Deddfwriaeth Awdurdodiadau Newydd
  - Treth Gwarediadau Tirlenwi
  - Cynllun Morol Cymru (Rheoleiddio)
  - Trwyddedu Tynnu Dŵr
  - Cydymffurfiaeth â Deddf Cronfeydd Dŵr
  - Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau

### **Ynni a Datgarboneiddio**

- Cwblhau ein Prosiect Carbon Cadarnhaol erbyn mis Medi 2017, cyflawni ein targed lleihau carbon, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drefnu digwyddiad i'w rannu gyda staff yn hydref 2017. Dechrau gwaith ar gam dau'r Prosiect Carbon Cadarnhaol gan ganolbwyntio ar lywio'r gwaith o gyflawni targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru
- Cyfrannu at y gwaith o gyflawni argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Dŵr Llywodraeth Cymru
- Darparu cyngor a chymorth technegol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag olew a nwy anghonfensiynol yng Nghymru, gan gynnwys mesurau a amlinellir yn Neddf Cymru 2017
- Cyflenwi prosiectau penodol fel: clirio 200 hectar o adferiad tir mawn ar ucheldiroedd.

### **Tirwedd a Lle**

- Rhoi cyngor ac arweiniad i lywio thema flaenoriaethol y Polisi Adnoddau Naturiol mewn perthynas â "Gwella llesiant cymunedol ac unigol" trwy agwedd sy'n seiliedig ar le a thirwedd
- Datblygu Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru "Dyhead am Newid – Cynllun Gweithredu" mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Thirweddau Dynodedig.
- Drafftio canllawiau ar asesu sensitifrwydd tirwedd mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy.

### **Samplu, Dadansoddi ac Adrodd**

(Ein gwaith i gymryd samplau, monitro a mesur, ynghyd â gwaith dadansoddi, modelu ac adrodd ynghylch hyn)

#### **Cyflawni ein Rhaglen Fonitro a Gofynion Adrodd**



- Cwblhau 90% o'n rhaglen samplu a monitro erbyn mis Mawrth 2018 fel y diffinnir gan yr Adolygiad Meysydd Busnes Tystiolaeth ac Adrodd.
- Cyflawni ein rhwymedigaethau i fonitro, asesu a llunio adroddiadau ar gyfer Cyfarwyddbau'r UE a deddfwriaeth y DU o ansawdd ac ar amser. Mae'n cynnwys y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, Parthau Perygl Nitradau, trin dŵr gwastraff trefol, a'r Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi.

## **Hamdden**

(Hyrwyddo hamdden ar dir a rheoli mynediad masnachol ac anfasnachol a chyfleusterau hamdden.)

### **Cynnal a Chadw Asedau Hamdden**

- Parhau i adolygu a chynnal ein hasedau hamdden gan gynnwys beicio mynydd a mynediad hamdden (Nodiadau Cyfarwyddyd Gweithredol 38 a 42).

## **Gwyddoniaeth ac Ymchwil**

(Datblygu ein sail dystiolaeth a goruchwylio rhaglenni monitro a samplu, ynghyd â datblygu gwyddoniaeth ac ymchwil gyda phartneriaid.)

- Dehongliad o Arolwg Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adnoddau naturiol a'r llesiant maent yn ei ddarparu
- Datblygu'r anghenion tystiolaeth a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
- Byddwn yn ymestyn ein Strategaeth Tystiolaeth bresennol tan fis Ebrill 2018 ac yn parhau i gyflawni'r Cynllun Gweithredu
- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith Adolygiad Meysydd Busnes yn llywio'r ailstrwythuro sefydliadol i gyflenwi gwasanaeth tystiolaeth strategol i bob un ohonom.

## **Ymateb i Ddigwyddiadau/Rheoli Digwyddiadau**

(Ymateb i, adolygu, adrodd am, a dysgu o ddigwyddiadau.)

### **Parodrwydd, Atal ac Ymateb**

- Cyflenwi rhaglen o ymgysylltiad â chymunedau sy'n cael blaenoriaeth i godi ymwybyddiaeth pobl o'u perygl llifogydd a'r camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd
- Gwella ymwybyddiaeth o lifogydd trwy wneud 8,000 o bobl yn fwy ymwybodol o'u perygl llifogydd a sicrhau bod cynlluniau llifogydd cymunedol i gyd yn cael eu cynnal.

### **Gwella Rheolaeth Digwyddiadau**

- Cyflenwi gwasanaeth effeithiol i ymateb i ddigwyddiadau o lifogydd, gan ymateb yn effeithiol a chydgyssylltiedig i ddigwyddiadau amgylcheddol. Datblygu matrices yn unol â'n Hadolygiad Meysydd Busnes Digwyddiadau
- Parhau i gyflawni argymhellion Adolygiad Meysydd Busnes Digwyddiadau gan gynnwys gweithredu ein Cynllun Categoriiddio Digwyddiadau a datblygu ymhellach ein model gweithredu ar gyfer ymdrin â digwyddiadau a'u hatgyfeirio, gyda'r nod o ganfod opsiwn dewisol sy'n effeithlon ac yn effeithiol
- Adolygu ein hamserlenni ymateb i ddigwyddiadau, gyda'r nod o'u rhesymoli er mwyn blaenoriaethu ein hymateb. Codi'r trothwy perygl lle gallwn ychwanegu gwerth ac arbed arian ble y bo'n bosibl.

## **Addysg, Dysgu a Sgiliau**

(Ein gwaith i ddylanwadu a chynorthwyo addysg a dysgu ynghyd â hwyluso cyfleoedd addysg, dysgu a datblygu sgiliau.)

### **Rhoi ein Hadolygiad Meysydd Busnes Hamdden ac Addysg ar waith (gan gynnwys yr adolygiad o gynlluniau galluogi perthnasol)**

- Cyflawni targedau blynyddol ein Cynllun Galluogi Addysg a Sgiliau, gan gynnwys argymhellion yr Adolygiad Meysydd Busnes.

### **Cefnogi'r Gwaith o Gyflawni Rhaglen Esgyn**

- Rhoi'r Adolygiad Meysydd Busnes ar waith ar gyfer Cyfle a Mynediad. Cyflawni lleoliadau Esgyn Datblygu Mynediad gyda datganiadau sefyllfa wedi eu treialu ar gyfer nifer o weithgareddau. Ar ein hystâd GNG, ymchwilio i'r cyfle i gynnwys y trydydd sector i reoli gwirfoddolwyr, gan gynnwys y Gwasanaeth Prawf Cymru.

## **Cyflwyno Grantiau**

(Ein cyllid, grantiau a gwaith partneriaeth allanol.)

### **Cyfleoedd Cyllid**

- Manteisio ar y cyfleoedd cydweithredol a chyflenwi ein model o roi cyllid i sefydliadau allanol a gomisiynwyd er mwyn dechrau ei ddefnyddio ym mis Ebrill 2018.

## **Gwasanaethau Galluogi**

(Yr holl wasanaethau mewnol sy'n cefnogi ein darpariaeth a'n gweithgareddau.)

**Cyflenwi ein Strategaeth Pobl a Thimau** i'n helpu i ddod yn lle gwyd i weithio a thyfu ynddo, fel bod modd i bobl a thimau ragori a chyflenwi perfformiad busnes gwell yn barhaus. Caiff llwyddiant ei fesur yn defnyddio ein Harolwg Pobl, ac mae ein blaenoriaethau fel a ganlyn:

- **Pwrpas a Chyfeiriad**
  - Bod yn eglur ynglŷn â nodau a sut i'w cyflenwi. Cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol 2017–22 yn hydref 2017. Bydd gan dros 80% ohonom ddealltwriaeth glir o'n hamcanion erbyn 2018. Bydd gan dros 50% ohonom hyder yn ein harweinyddiaeth a rheolaeth o newid erbyn 2018.
  - Sut rydym yn newid, cael ein cynnwys yn y newid, a gwybod bod ein hanghenion yn cael eu hystyried o'r dechrau trwy ddiweddarau ein hegwyddorion newid a datblygu dealltwriaeth a chapasiti i reoli newid. Bydd dros 50% ohonom yn teimlo bod newid yn cael ei reoli'n dda erbyn 2018, a bydd dros 50% ohonom yn teimlo ein bod wedi cael cyfle i gyfrannu ein safbwyntiau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio arnom
  - Datblygu ein cynllun Gweithlu Strategol i gefnogi ailsgilio gweithlu'r dyfodol i gyflenwi ein cynlluniau strategol. Bydd dros 50% ohonom yn credu ein bod yn ymroddedig i symud adnoddau i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau erbyn 2018, a bydd dros 90% ohonom yn cadarnhau ein bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud ein gwaith yn effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- **Annog arweinyddiaeth ysbrydoledig**
  - Datblygu ein hymddygiad, gwerthoedd a galluedd arweinwyr i gefnogi arloesedd a gwneud penderfyniadau mor agos â phosibl at y cwsmer, a datblygu rheolwyr ac arweinwyr i wella ein galluedd. Ystyried cynllunio olyniaeth a datblygu talent

rheolwyr/arweinwyr ar gyfer y dyfodol. Bydd dros 50% ohonom yn teimlo ein bod yn cael ein rheoli'n dda erbyn 2018. Bydd dros 50% ohonom yn credu bod gweithrediadau uwch reolwyr yn gyson â'n gwerthoedd erbyn 2018, a bydd gan dros 50% ohonom hyder yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan uwch reolwyr erbyn 2018.

- **Diwylliant**

- Datblygu ein diwylliant trwy ddatblygiad penodol a chefnogaeth y rhai sydd mewn swyddi arwain trwy 2017/18. Ailasesu trwy'r Arolwg Pobl yn hydref 2017. Cyflenwi strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch a chynllun gwella, ailasesu ein harolwg hinsawdd iechyd a diogelwch. Gwella ein galluedd dwyieithog a bodloni safonau newydd Comisiynydd y Gymraeg. Cwblhau'r gwaith o werthuso swyddi. Bydd dros 85% ohonom yn dweud ein bod yn cael ein trin yn deg yn y gwaith erbyn 2018. Bydd dros 50% ohonom yn dweud bod cyflymder newid yn cael ei fonitro a'i addasu pan fo angen erbyn 2018.
- Annog agosatrwydd i rannu profiad o un sefydliad. Bydd dros 50% ohonom yn credu bod gwahanol rannau o'n sefydliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd erbyn 2018. Bydd dros 85% ohonom yn credu bod ein timau'n chwilio am ffyrdd i weithio'n well gydag eraill erbyn 2018.
- Ymddiried yn ein gilydd a bod yn destun ymddiriedaeth gan ein cwsmeriaid a phartneriaid. Bydd dros 50% ohonom yn cael cyfle i gyfrannu ein safbwyntiau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio arnom erbyn 2018. Bydd dros 50% ohonom yn profi datblygiad diwylliant o ymddiriedaeth gyda gwerthoedd ac ymddygiad yn amlwg ym mhopeth a wnawn erbyn 2018.

**Cefnogi'r gwaith o roi ein Dyluniad Sefydliadol a ffyrdd newydd o weithio ar waith**

- Cyfathrebu a hysbysu'r sefydliad ar gynnydd a buddion gyda dealltwriaeth staff yn cyrraedd 60%.
- Darparu cefnogaeth barhaus i wella ein rhaglenni gweithredu Adolygiad Meysydd Busnes i wireddu'r buddion a nodwyd a rhoi anghenion cwsmeriaid wrth wraidd prosesau newydd.
- Darparu dull effeithiol o reoli prosiectau i gyflawni'r Dyluniad Sefydliadol newydd a'r newid cysylltiedig er mwyn i'r strwythur fod ar waith yn llawn erbyn mis Mawrth 2018.
- Paratoi i weithredu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol cyn iddo ddod i rym ym mis Mai 2018.

**Cyflenwi ein Rhaglen Canolbwyntio ar y Cwsmer**

- Rheoli hyfforddiant gyda staff i wella dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid a'r sector cyhoeddus.
- Bydd llai o alw am adnoddau mewn perthynas â chwynion a bydd llai o gwynion oherwydd darpariaeth gwasanaeth gwael.
- Cyflenwi rhaglen o welliannau i sianeli cyfathrebu mewnol er mwyn gwella cyfathrebu dwyffordd ac ymgysylltu â staff a rhwng staff.
- Rhoi ein strategaeth gyfathrebu ar waith i sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu'n brydlon ac yn eglur, gan gyflawni: 96% o sylw cytbwys, niwtral a chadarnhaol yn y cyfryngau; o leiaf 50% o ddylanwad cysylltiadau cyhoeddus ar ein sylw yn y cyfryngau; a sgôr Klout o isafswm o 60. Parhau i wella ein gwefan, gan gyflawni sgôr Sitemorse o isafswm o 7.4.

- Datblygu mesurau i gyflawni ein Gweledigaeth Ddigidol 2020 i wella sut rydym yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â chwsmeriaid.
- Darparu buddion i'r cwsmer a'r gymuned trwy ein gwaith caffael trwy gynyddu nifer y contractau sy'n cynnwys cymalau budd cymunedol.

#### **Arbedion**

- Cyflawni cydran 2017/18 ein rhaglen datblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar amser ac o fewn cyllideb.
- Bodloni ein targedau effeithlonrwydd ar gyfer rhesymoli Rheoli Fflyd a Llety.
- Hwyluso'r sefydliad i gyflawni £2 filiwn o arbedion caffael trwy ein methodoleg arbedion.
- Cynnal ein ISO14001:2015 ac ardystiad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

#### **Cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Menter**

- Gweithio i gynyddu incwm gan gyfleoedd masnachol.
- Bydd ein gwaith adrodd ariannol yn cefnogi gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar fasnach trwy gyflwyno gwybodaeth reoli newydd.